# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

# Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

| | |
|---|---|
| **1** | **Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC) 22 Mai 2025**<br>***Drafft ar gyfer sylwadau*** |
| **2** | **Uwch Grŵp Arwain Ffurfiol 29 Mai 2025**<br>***Drafft i'w gymeradwyo*** |
| **3** | **Uwch Grŵp Arwain Ffurfiol 26 Mehefin 2025**<br>***Fersiwn Derfynol i'w Chymeradwyo*** |
| **4** | **Pwyllgor Archwilio 8 Gorffennaf 2025**<br>***Fersiwn Derfynol i'w Chymeradwyo*** |

## CYNNWYS



| Pennod | Pennawd | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | **Cwmpas Cyfrifoldeb** | 3 |
| 2 | **Y Fframwaith Llywodraethu** | 4 |
| 2.1 | Adolygiad Annibynnol sydd ar ddod o Drefniadau Atebolrwydd a Llywodraethu Cydwasanaethau GIG Cymru | 5 |
| 2.2 | Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC) | 5 |
| 2.3 | **2.2 Perfformiad SSPC** | 8 |
| 2.4 | Is-bwyllgorau SSPC | 10 |
| 2.4.1 | Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | 10 |
| 2.4.2. | Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio | 12 |
| 2.4.3. | Pwyllgor Cronfa Risg Cymru | 12 |
| 2.5 | Grwpiau Ymgynghorol SSPC | 13 |
| 2.6 | Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | 14 |
| 2.7 | Trefniadau Llywodraethu Prynu i Dalu (P2P) Cymru Gyfan | 14 |
| 2.8 | Yr Uwch Grŵp Arwain | 15 |
| 3 | **Y System Rheolaeth Fewnol** | 16 |
| **3.1** | Archwilio Allanol | 16 |
| 3.2 | Archwilio Mewnol | 16 |
| 3.3 | Atal Twyll | 17 |
| 3.4 | Llywodraethu Integredig | 18 |
| 3.5 | Sicrhau Ansawdd | 19 |
| 3.6 | Ardystiadau | 20 |
| 3.7 | Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid | 20 |
| 3.8 | Edrych tua'r Dyfodol | 21 |
| 4 | **Y Gallu i ddelio â risg** | 18 |
| 5 | **Y Fframwaith Rheoli** | 21 |
| 5.1 | Y Fframwaith Risg Gorfforaethol | 23 |
| 5.2 | Polisïau a Gweithdrefnau | 24 |
| 5.3 | Llywodraethu Gwybodaeth | 24 |
| 5.4 | Iechyd a Diogelwch | 26 |
| 5.5 | Archwilio Mewnol | 26 |
| 5.6 | Y Ddyletswydd Ansawdd | 27 |
| 6 | **Trefniadau Cynllunio** | 27 |
| 7 | **Datganiadau Datgelu** | 27 |
| 7.1 | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 27 |
| 7.2 | Y Gymraeg | 29 |
| 7.3 | Ymdrin â Chwynion a Phryderon | 30 |
| 7.4 | Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 30 |
| 7.5 | Diogelwch a Llywodraethu Data | 31 |
| 7.6 | Ôl troed Carbon | 31 |
| 7.7 | Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio | 34 |
| 7.8 | Cynllunio Parhad Busnes a Pharodrwydd am Argyfwng | 35 |
| 7.9 | Seiberddiogelwch | 36 |
| 7.1 | Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU | 37 |
| 7.11 | Cynllun Pensiwn y GIG | 37 |
| 8 | **Adolygiad Cyffredinol y Rheolwr Gyfarwyddwr o Effeithiolrwydd** | 37 |

| | | |
|---|---|---|
| 8.1 | Barn Archwilio Mewnol | 38 |
| 8.2 | Rheolaeth Ariannol | 39 |
| 8.2.1 | Crynodeb o Reolaeth Ariannol yn PCGC | 39 |
| 9 | **Casgliad** | 40 |

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2024-2025

## 1. CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn manylu ar y trefniadau sydd ar waith yn ystod 2024-25 i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Rheolwr Gyfarwyddwr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) ac i reoli a chadw trefn ar ei hadnoddau yn rhinwedd fy swydd fel y Swyddog Atebol o fewn y fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd sydd ar waith drwy gydol y flwyddyn a thrwy drefniant lletya gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth).

Nid oes gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ddyletswydd statudol i gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ond mae'n gwneud hynny, fel mater o lywodraethu da, i roi sicrwydd i bartneriaid ac, yn benodol, i'r Ymddiriedolaeth, fel ei sefydliad lletya, mewn perthynas â'i threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd.

Fel y Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol, yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt ar yr un pryd. Caiff y rhain eu cynnal yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Ystyr llywodraethu yw'r trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig i randdeiliaid wedi eu diffinio a'u cyflawni. Mae llywodraethu effeithiol yn hanfodol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau PCGC yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Cyflawnir hyn trwy gyfuniad o systemau a phrosesau "caled" gan gynnwys Rheolau Sefydlog, polisïau, protocolau a phrosesau; a nodweddion "meddal" arweinyddiaeth effeithiol a safonau ymddygiad uchel (wedi'u hysgogi gan egwyddorion Nolan).

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau fel y Swyddog Atebol, rwy'n atebol am fy mherfformiad i a pherfformiad PCGC i'r Pwyllgor Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir (SSPC) a'i Gadeirydd mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny a ddirprwywyd iddo.

Mae gennyf gyfrifoldeb hefyd gyda Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) i gydweithio i sicrhau llwyddiant y trefniant lletya er budd y GIG yng Nghymru yn gyffredinol a buddiannau lleol yr Ymddiriedolaeth fel y sefydliad sy'n lletya. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod gennyf gyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth i Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth lle mae ganddo fuddiant dilys fel Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth, gan sicrhau nad yw'n ymyrryd yng ngweithgarwch y cydwasanaethau.

Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am berfformiad cyffredinol swyddogaethau gweithredol yr Ymddiriedolaeth, ac ef hefyd yw Swyddog

Atebol penodedig yr Ymddiriedolaeth. Fel y sefydliad lletyol, mae gan y Prif Weithredwr (a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth) ddiddordeb dilys yng ngweithgarwch PCGC, ac mae ganddo gyfrifoldebau statudol penodol fel yr endid cyfreithiol sy'n lletya PCGC.

Myfi (fel y Swyddog Atebol ar gyfer PCGC) a Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth (fel y Swyddog Atebol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth) fydd yn gyfrifol am gyflawni holl gyfrifoldebau ein rolau, fel y'u nodir yn ein Memoranda Swyddogion Atebol priodol. Mae'r ddau Swyddog Atebol yn cydweithredu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod atebolrwydd llwyr i Ysgrifenyddion Cabinet/Gweinidogion Llywodraeth Cymru am weithgarwch y Bartneriaeth Cydwasanaethau a'r Ymddiriedolaeth, a hynny gan ddyblygu cyn lleied o waith â phosibl.

## 2. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Nid sefydliad statudol ynddo'i hun yw PCGC. Mae'n gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd sefydledig a bennwyd gan Weinidogion Cymru. Nod y fframwaith hwn, fel y'i nodir isod, yw sicrhau bod PCGC yn gweithredu mewn partneriaeth wirioneddol, ei bod yn eiddo i'r GIG yng Nghymru ac yn cael ei weithredu ganddo o dan drefniant lletya gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Gwneir penderfyniadau ar wasanaethau PCGC ar sail Cymru gyfan gan y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau (SSPC). Cafodd SSPC ei sefydlu yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012, ac mae swyddogaethau rheoli a darparu cydwasanaethau (gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol) i'r GIG yng Nghymru wedi eu cynnwys yng Ngorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Diwygiad) 2012.

Cyhoeddir Rheolau Sefydlog Enghreifftiol gan Weinidogion Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru gan ddefnyddio pwerau cyfarwyddo a ddarparwyd yn adran 12(3) o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau (SSPC). Mae Rheolau Sefydlog hyn yr SSPC yn Atodiad i Reolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth ei hun, ac maent yn weithredol fel pe baent wedi'u hymgorffori ynddynt.

Fe'u cynlluniwyd i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Cymru) 2012 (2012/1261 (Cy.156)) a Rheol Sefydlog 3 yr Ymddiriedolaeth yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu cynllun o benderfyniadau sydd wedi cael eu neilltuo i'r SSPC; cynllun dirprwyo i swyddogion Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac eraill; ac ar y cyd â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol

Felindre, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes y SSPC.

Mae Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG a'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig wedi cydweithio ar y trefniadau gweithredol ar gyfer darparu cydwasanaethau, ac mae ganddynt Femorandwm Cydweithredu y cytunwyd arno i sicrhau bod y trefniadau'n gweithredu'n effeithiol, a hynny trwy wneud penderfyniadau ar y cyd yn unol â'r polisi a'r strategaeth a nodir uchod, a bennwyd gan yr SSPC.

Mae Cytundeb Lletya dyddiedig Mehefin 2012 rhwng y Partneriaid yn darparu ar gyfer y telerau y bydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnal PCGC oddi tanynt, ac mae Cytundeb Rhyngwyneb rhwng Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth (fel Swyddog Atebol y sefydliad) a Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC (fel Swyddog Atebol PCGC) dyddiedig Mehefin 2012 yn diffinio rolau priodol y ddau Swyddog Atebol.

Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn ffurfio'r sail y mae fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd SSPC wedi'i ddatblygu arni. Ynghyd â mabwysiadu Fframwaith Safonau Ymddygiad yr Ymddiriedolaeth, nod hyn yw sicrhau bod safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru yn cael eu cyflawni.

## 2.1 Adolygiad Annibynnol sydd ar ddod o Drefniadau Atebolrwydd a Llywodraethu Cydwasanaethau GIG Cymru

Ar 9 Ebrill 2025, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr GIG Cymru at Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC i gyhoeddi'r bwriad i gomisiynu adolygiad annibynnol o drefniadau atebolrwydd a llywodraethu Cydwasanaethau GIG Cymru.

Cydnabuwyd yn *Cymru Iachach* (2018) fod tirwedd GIG Cymru wedi mynd yn gymhleth dros amser. Felly, cafodd cam gweithredu ei gynnwys i:

*"Adolygu swyddogaethau cynghori arbenigol, swyddogaethau cenedlaethol a gânt eu lletya (e.e. PCGC, NWIS, WHSSC, EASC) a rhaglenni cyflawni cenedlaethol eraill, gyda'r nod o gydgrynhoi gweithgarwch cenedlaethol ac egluro trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd".*

Mae adolygiadau o'r fath wedi'u cynnal ar draws rhannau eraill o'r GIG yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac ystyrir ei bod bellach yn amserol adolygu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd PCGC. Mae hyn i'w groesawu, ac mae'n cydnabod bod PCGC wedi tyfu'n sylweddol o ran maint a chymhlethdod ers sefydlu'r trefniadau llywodraethu, ac mae'n bwysig canfod a oes angen cryfhau neu ddiwygio'r trefniadau presennol i sicrhau eu bod yn addas at y diben yn y dyfodol.

Mae'n bwysig pwysleisio, tra bod yr adolygiad hwn yn yr arfaeth, fod PCGC wedi gweithredu, a'i bod yn parhau i weithredu, o fewn gofynion y trefniadau presennol.

## 2.2 Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Er bod SSPC yn gweithredu ar ran holl sefydliadau’r GIG wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae gweithredu swyddogaethau PCGC yn gyfrifoldeb i bob un o’r cyrff yn GIG Cymru.

Mae pwrpas yr SSPC wedi’i nodi isod:

- gosod y polisi a'r strategaeth ar gyfer PCGC o fewn y fframwaith cyfreithiol y mae'r Ymddiriedolaeth, fel y sefydliad lletya, yn gweithredu oddi tano;
- monitro’r gwaith o ddarparu cydwasanaethau trwy Reolwr Gyfarwyddwr PCGC.
- ceisio gwella’r modd y caiff cydwasanaethau eu darparu fel eu bod yn effeithiol, effeithlon ac yn arbed arian i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru;
- sicrhau y caiff PCGC ei harwain, ei rheoli a’i chyfarwyddo’n effeithlon ac yn effeithiol; a
- sicrhau bod ffocws cryf ar arbedion y gellir eu hailfuddsoddi mewn gofal cleifion uniongyrchol.

Mae'r SSPC yn monitro perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Os na fydd dangosydd wedi cyrraedd y targed, nodir y rhesymau dros hynny a chânt eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â chamau i wella perfformiad. Mae sesiynau Golwg Manwl yn aml ar yr agenda i ddysgu mwy am y cyfleoedd, y risgiau a'r problemau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau o fewn PCGC.

Mae SSPC yn sicrhau bod PCGC yn dilyn egwyddorion llywodraethu da sy’n berthnasol i sefydliadau yn y GIG mewn modd cyson, gan gynnwys datblygu systemau a phrosesau ar gyfer rheolaeth ariannol, rheolaeth sefydliadol, llywodraethu, a rheolaeth risg. Mae'r SSPC yn asesu risgiau strategol a chorfforaethol trwy adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob cyfarfod.

Mae cyfansoddiad y SSPC yn cynnwys Cadeirydd Annibynnol, Rheolwr Gyfarwyddwr y Cydwasanaethau, a Phrif Weithredwr pob sefydliad partner. Mae darpariaeth yn Rheolau Sefydlog yr SSPC i Brif Weithredwyr enwebu dirprwy i weithredu ar eu rhan, ac mae hyn wedi cael ei arfer gan y rhan fwyaf o sefydliadau. Dylai dirprwyon enwebedig ar gyfer Prif Weithredwyr fod yn Gyfarwyddwr Gweithredol yn yr un sefydliad a chyfrannu'n ffurfiol at y cworwm a chael hawliau pleidleisio dirprwyedig.

Amlinellir isod yn Ffigur 3 isod Aelodaeth SSPC hyd at ddiwedd y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Ffigur 3: Aelodaeth o Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ystod 2024-25

| Enw | Swydd | Sefydliad | Blwyddyn Lawn/Rannol |
|---|---|---|---|
| Yr Athro Tracy Myhill OBE, Cadeirydd SSPC | Cadeirydd SSPC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | Blwyddyn Lawn |
| Huw Thomas (Is-gadeirydd) | Cyfarwyddwr Cyllid | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Blwyddyn Lawn |
| Neil Frow OBE | Rheolwr Gyfarwyddwr a Swyddog Atebol PCGC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | Blwyddyn Lawn |
| Sarah Simmonds | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Blwyddyn Lawn |
| Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Blwyddyn Lawn |
| Catherine Phillips | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Blwyddyn Lawn |
| Hywel Daniel | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Rhan o Flwyddyn |
| Sally May | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Rhan o Flwyddyn |
| Claire Osmundsen-Little | Cyfarwyddwr Cyllid | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Blwyddyn Lawn |
| Glyn Jones | Cyfarwyddwr Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad | Addysg a Gwella Iechyd Cymru | Blwyddyn Lawn |
| Pete Hopgood | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Sicrwydd Busnes | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Blwyddyn Lawn |
| Paul Veysey* | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Blwyddyn Lawn |
| Sarah Jenkins | Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Blwyddyn Lawn |
| Steve Ham | Prif Weithredwr | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Rhan o Flwyddyn |
| Carl James | Prif Weithredwr Dros Dro | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Rhan o Flwyddyn |
| Dafydd Donegan | Prif Weithredwr | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Rhan o Flwyddyn |
| Chris Turley | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Blwyddyn Lawn |

**Ddim yn Gyfarwyddwr Gweithredol*

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob deufis, ac er nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor, mae gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac Undebau Llafur wahoddiad parhaol ac maent yn mynychu'n rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am bresenoldeb swyddogion canlynol PCGC: y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; y Cyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth; y Cyfarwyddwr Meddygol; y Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg; a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol.

Ffigur 4 – Presenoldeb yng Nghyfarfodydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ystod 2024-2025

| Sefydliad | 16/05/2024 | 18/07/2024 | 19/09/2024 | 21/11/2024 | 03/02/2025 | 25/03/2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadeirydd SSPC | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rheolwr Gyfarwyddwr a Swyddog Atebol NWSSP | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓* | ✓ | ✓ |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | x | x | ✓** | ✓** | ✓ | ✓** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | ✓** | ✓** | ✓** | ✓** | ✓** | ✓** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | ✓** | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | ✓** | ✓ | ✓ | ✓** | ✓ | ✓ |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ✓** | ✓ | ✓ |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓** | ✓** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓** |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | x | x | x | ✓** | ✓** | ✓** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | ✓** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | x | ✓* | ✓ | x | ✓ | x |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | ✓ | x | ✓ | x | ✓ | ✓ |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Undeb Llafur | x | x | x | x | ✓ | ✓ |

✓ Yn dynodi y bu’r aelod enwebedig yn bresennol

✓* *Yn dynodi nad oedd yr aelod enwebedig yn bresennol, a bod Cyfarwyddwr Gweithredol arall yn bresennol ar ei ran*

✓** *Yn dynodi nad oedd yr aelod enwebedig yn bresennol, ac er bod dirprwy yn bresennol, nid oedd yn Aelod Gweithredol o'i Fwrdd.*

*X* Yn dynodi na fu’r corff iechyd yn bresennol

Roedd pob cyfarfod o'r SSPC yn ystod 2024-25 yn bodloni gofynion cworwm Rheolau Sefydlog yr SSPC. Yn dilyn pob cyfarfod, mae Cadeirydd yr SSPC yn darparu adroddiad sicrwydd i fyrddau sefydliadau partner.

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol i'r SSPC gyfarfod yn gyhoeddus. Gwneir trefniadau i'r cyhoedd fod yn bresennol os bydd cais yn dod i law. Ni chawsom unrhyw geisiadau gan y cyhoedd i ddod i gyfarfodydd yr SSPC ond, er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd mor agored a thryloyw â phosibl yn ystod y cyfnod hwn, cymerwyd y camau canlynol:

- cyhoeddir dyddiadau'r holl gyfarfodydd ar wefan PCGC cyn dechrau'r flwyddyn ariannol;
- cyhoeddir yr agenda o leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod; a
- chyhoeddir pob papur yn Saesneg ar y wefan, a darperir cofnodion ac agendâu yn y Gymraeg hefyd, yn fuan ar ôl i'r cyfarfod ddigwydd.

## 2.3 Perfformiad SSPC

Ar ddechrau 2024-2025, cymeradwyodd yr SSPC gynllun busnes blynyddol, gan gynnwys:

- Asesu ac adolygu’r canlynol yn rheolaidd:
  - Gwybodaeth am Gyllid, y Gweithlu a Mesurau Canlyniadau a Pherfformiad;
  - Adroddiadau cynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig Chwarterol:
  - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol;
  - Cronfa Risg Cymru; a
  - Diweddariadau’r Swyddfa Rheoli Rhaglenni.
- Adolygiad blynyddol a/neu gymeradwyo’r canlynol:
  - y Cynllun Tymor Canolig Integredig;
  - y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
  - Llythyr Rheoli Archwilio Cymru;
  - yr Adolygiad Blynyddol;
  - Rheolau Sefydlog; a
  - Chytundebau Lefel Gwasanaeth
- Sesiynau Golwg Manwl (pynciau a enwebwyd ac a awgrymwyd gan aelodau’r SSPC yn ôl y digwyddiadau)
  - y Rhaglen Moderneiddio Recriwtio;
  - Datblygiadau mewn Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd;
  - Model Un Cyflogwr Arweiniol;

- y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a'r
    - Gwasanaeth Archwilio Meddygol
- Diwrnod Datblygu'r hydref yr SSPC

Mae nifer o ffynonellau adborth a sicrwydd ynghylch gweithrediad y SSPC a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn:

- arfarniad blynyddol y Cadeirydd a adroddwyd i gyfarfod yr SSPC ym mis Mawrth 2025;
- sesiwn ar weithrediad yr SSPC yn Niwrnod Datblygu'r Hydref;
- Adroddiadau Sicrwydd o bob cyfarfod yr SSPC i bob sefydliad partner;
- cyswllt rheolaidd ag aelodau'r SSPC gan y Cadeirydd, y Rheolwr Gyfarwyddwr ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth; ac
- adolygiad o agendâu a phapurau gan archwilwyr allanol a mewnol at ddibenion eu harchwiliadau.

Mae Cadeirydd yr SSPC a'r Rheolwr Gyfarwyddwr wedi ymrwymo i welliant parhaus a gwneir nodiadau lle nodir bod eu hangen i wella gweithrediad y Pwyllgor. Yn gyffredinol, mae'r adborth a geir gan aelodau yn parhau i fod yn gadarnhaol, ac mae aelodau'n fodlon bod yr SSPC yn cwmpasu'r meysydd disgwyliedig, bod cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda a bod y cyfraniadau a'r trafodaethau'n briodol.

### 2.4 Is-bwyllgorau'r SSPC

Mae'r SSPC wedi sefydlu strwythur is-bwyllgorau sy'n diwallu ei anghenion cynghori a sicrwydd ei hun ac yn defnyddio trefniadau pwyllgor yr Ymddiriedolaeth i'w gynorthwyo i gyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu. Mae'r trefniadau sydd ar waith yn sicrhau bod strwythur Is-bwyllgorau'r SSPC yn diwallu anghenion yr Ymddiriedolaeth, fel y sefydliad lletya, a hefyd anghenion ei Phartneriaid.

Fel isafswm, mae Rheolau Sefydlog yr SSPC yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor Archwilio fod ar waith. Yn ogystal, mae'r SSPC wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Risg Cymru fel Is-bwyllgor ffurfiol.

#### 2.4.1 Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**Prif rôl Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer y Bartneriaeth Cydwasanaethau (y Pwyllgor Archwilio) yw adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd system lywodraethu a rheolaeth fewnol gyffredinol PCGC a chyflwyno adroddiad arnynt. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg, rheolaethau gweithredu a chydymffurfio ynghyd â'r sicrwydd cysylltiedig sy'n sail i'r gwaith o gyflawni amcanion PCGC. Mae hyn wedi'i nodi yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, a gafodd eu hailgymeradwyo ym mis Gorffennaf 2024 i sicrhau bod y swyddogaethau allweddol hyn wedi'u hymgorffori yn Rheolau Sefydlog a threfniadau llywodraethu'r SSPC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu gweithrediad lleol effeithiol yr archwilwyr mewnol ac allanol, yn ogystal â Gwasanaethau Gwrth-dwyll

Lleol. Yn ogystal, mae'n sicrhau bod perthynas broffesiynol yn cael ei chynnal rhwng yr archwilwyr allanol a mewnol fel bod adnoddau sicrwydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cefnogi'r SSPC wrth iddo wneud penderfyniadau a chyflawni ei ddyletswyddau i sicrhau bod PCGC yn gwireddu ei hamcanion, yn unol â'r safonau llywodraethu da sydd wedi'u gosod i GIG Cymru.

Ar ôl pob cyfarfod y Pwyllgor, mae'r Cadeirydd yn darparu Adroddiad Sicrwydd i'r SSPC ac mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd i bob cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2024-25 yn cynnwys dau Aelod Annibynnol o'r Ymddiriedolaeth (aelodau'r Pwyllgor), gyda chynrychiolwyr o'r Timau Archwilio Mewnol ac Allanol ac Uwch Swyddogion PCGC a'r Ymddiriedolaeth yn bresennol. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio yn ffurfiol bedair gwaith fel y cynlluniwyd yn ystod y flwyddyn.

Ffigur 5 – Aelodaeth o Bwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer PCGC yn ystod 2024-2025

| **Yn Bresennol** | **16/04/2024** | **15/07/2024** | **25/10/2024** | **05/02/2025** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau** | | | | | |
| Gareth Jones, Cadeirydd ac Aelod Annibynnol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| Vicky Morris, Aelod Annibynnol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| **Archwilio Cymru** | | | | | |
| Cynrychiolydd y Tîm Archwilio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| **Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd PCGC** | | | | | |
| Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| Pennaeth Archwilio Mewnol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| **Gwasanaethau Gwrth-dwyll PCGC** | | | | | |
| Arbenigwr Atal Twyll Lleol | x | ✓ | ✓ | ✓ | **3/4** |
| **PCGC** | | | | | |
| Yr Athro Tracy Myhill OBE, Cadeirydd yr SSPC | ✓ | ✓ | ✓ | x | **3/4*** |
| Neil Frow OBE, Rheolwr Gyfarwyddwr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| Andy Butler, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (tan 30 Ebrill 2024) | ✓ | - | - | - | **1/1** |
| Alison Ramsey, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (o 1 Mai 2024, y Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg yn flaenorol) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| Linsay Payne, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |

| Yn Bresennol | 16/04/2024 | 15/07/2024 | 25/10/2024 | 05/02/2025 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Peter Stephenson, Pennaeth Cyllid a Datblygu Busnes (tan 30 Ebrill 2024) | ✓ | - | - | - | **1/1** |
| James Quance, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol (o 1 Mai 2024) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| Carly Wilce, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4** |
| **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre** | | | | | |
| Matthew Bunce, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid | ✓ | x | x | ✓ | **2/4** |
| Lauren Fear, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Phennaeth Staff | ✓ | - | - | - | **1/4** |
| Carl James, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro | - | ✓ | ✓ | - | **2/4** |
| Non Gwilym, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu | - | ✓ | - | - | **1/4** |

*Methu bod yn bresennol oherwydd bod cyfarfod mis Chwefror yn cael ei aildrefnu i sicrhau cworwm

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn darparu ar gyfer tri aelod sy'n Aelodau Annibynnol o'r Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, ar gyfer 2024-25, roedd dau Aelod Annibynnol pwrpasol, ac roedd y ddau ohonynt yn bresennol ym mhob cyfarfod y Pwyllgor, gan sicrhau bod cworwm ym mhob cyfarfod.

### 2.4.2 Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio

Mae’r Pwyllgor Archwilio yn cwblhau arolwg o effeithiolrwydd y pwyllgor bob blwyddyn, sy’n gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y canlynol:

- Aelodau a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;
- Ansawdd yr adroddiadau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor ac
- Effeithiolrwydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

Mae holiadur yr arolwg yn cynnwys cwestiynau hunanasesu sydd â’r nod o gynorthwyo’r Pwyllgor Archwilio i asesu’i effeithiolrwydd. Bwriad hyn yw nodi’r meysydd hynny y gellir gwella arnynt wrth symud ymlaen. Roedd gan arolwg a adroddwyd i’r Pwyllgor ym mis Hydref 2024 gyfradd ymateb o 60% (daeth 9 ymateb i law), a nododd y canlynol:

- adborth cadarnhaol iawn ar gadeirio’r Pwyllgor; mae’r aelodau’n teimlo ei fod wedi’i gadeirio’n dda, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- mae gan gyfarfodydd awyrgylch ffafriol ar gyfer trafodaeth agored a chynhyrchiol; mae ymddygiad yn gwrtais ac yn broffesiynol;
- bod gan y Cadeirydd ddealltwriaeth glir o’r prif faterion a’r risgiau allweddol y gallai’r Pwyllgor eu hwynebu;
- Mae Cynlluniau Archwilio yn cael eu datblygu o brosesau clir yn seiliedig ar asesu risg, gyda chysylltiadau â'r system sicrwydd;
- bod digon o amser yn cael ei ddyrannu ar gyfer materion cynlluniedig, cwestiynau a thrafodaethau;

- mae'r dull cyfunol o gyfarfod rhithwir ac o leiaf un cyfarfod wyneb yn wyneb bob flwyddyn yn gweithio'n dda; ac
- yn gyffredinol, rhoddir digon o awdurdod ac adnoddau i'r Pwyllgor i gyflawni ei rôl yn effeithiol, ond mae rhai aelodau'n awgrymu y dylai Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre recriwtio trydydd aelod annibynnol i gydymffurfio â'r Cylch Gorchwyl ac osgoi problemau posibl ynghylch cworwm.

### 2.4.3 Pwyllgor Cronfa Risg Cymru

Ar 1 Ebrill 2019, daeth Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019 i rym. Creodd y Rheoliadau Gynllun ar gyfer Hawliadau Esgeuluster Clinigol yng Nghymru, a chawsant eu dwyn i rym, ymhlith pethau eraill, ar gyfer rheoli hawliadau esgeuluster clinigol yng Nghymru, gan weithredu o dan adrannau 41, 42 a 50 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Caiff y cynllun ei weithredu gan PCGC trwy'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg gyda chefnogaeth Cronfa Risg Cymru, gan ddefnyddio ei phwerau fel un o swyddogaethau'r cydwasanaethau o dan Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012.

Mae gan PCGC gyfrifoldeb am weinyddu Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru, gan gynnwys rheoli Cyllideb Cronfa Risg Cymru. Mae Cronfa Risg Cymru yn cael ei hariannu trwy ddyraniad ariannol PCGC gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn wedi'i ategu gan Gytundeb Rhannu Risg gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau.

Mae Pwyllgor Cronfa Risg Cymru yn cynnwys cynrychiolaeth o uwch weithwyr proffesiynol y GIG o Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg a Llywodraeth Cymru. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn egluro prif rôl Pwyllgor Cronfa Risg Cymru, sef:

- ad-dalu sefydliadau iechyd sydd wedi colli mwy na £25,000 yn sgil hawliadau esgeuluster;
- goruchwylio Cynllun Indemniad Meddygon Teulu;
- goruchwylio gwaith a gwariant Cronfa Risg Cymru; a
- helpu i hyrwyddo'r arferion clinigol gorau a'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau clinigol.

Mae trefniadau adrodd o Gronfa Risg Cymru i'r SSPC wedi'i safoni yn ystod y flwyddyn, a chan gydnabod y gall hwn fod yn faes cymhleth, cynhaliwyd sesiwngolwg manwl ar gyfer aelodau'r SSPC yn Niwrnod Datblygu'r SSPC yn yr hydref ym mis Hydref 2024.

## 2.5 Grwpiau Ymgynghorol yr SSPC

Cefnogir yr SSPC gan ddau grŵp cynghori:

- **Y Fforwm Partneriaeth Lleol**

Mae'r LPF yn fecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu rhwng PCGC a'r Undebau Llafur perthnasol fel y nodir yn Rheolau Sefydlog yr SSPC. Mae'n fforwm agored lle gall partïon gynnal trafodaethau a chytuno ar flaenoriaethau lleol mewn perthynas â materion gweithlu a gwasanaethau iechyd.

- **Grŵp Ynni Cymru (WEG)**

Mae'r WEG yn Grŵp Cynghori Gorchwyl a Gorffen fel y nodir yn Rheolau Sefydlog Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC). Ei rôl yw:

  - sicrhau dull cyson o gaffael / cyrchu Nwy a Thrydan ledled GIG Chymru.
  - cyfrannu at ddatblygu model caffael strategol ar gyfer contractau Nwy a Thrydan yn GIG Cymru;
  - darparu llwyfan i ddarparwr y fframwaith rannu gwybodaeth am y farchnad cyfleustodau gyda'r holl Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Iechyd Arbennig, PCGC ac Ymddiriedolaethau o fewn GIG Cymru;
  - datblygu, cytuno ar, a rheoli'r Strategaeth Brynu ar gyfer contractau Nwy a Thrydan Cymru Gyfan ar ôl cael gwybodaeth am y farchnad a pherfformiad pris/contract gwirioneddol, a chytuno mewn modd amserol ar benderfyniadau prynu cenedlaethol (h.y. dewis basged).
  - monitro perfformiad contractau gyda chynrychiolydd/wyr Grŵp Gweithredu Ynni Cymru (WEOG) a rhoi diweddariad ar berfformiad y contractau Nwy a Thrydan.
  - Monitro rhagolygon Nwy a Thrydan GIG Cymru fel y'u darperir gan y cyflenwr a darparu rhagolygon ariannol rheolaidd i bob aelod o sefydliadau'r GIG; ac
  - enwebu aelod(au) GIG Cymru yn ôl yr angen i gymryd rhan yng ngrŵp Rheoli Risg Allanol (ERM) cyflenwyr.

Yn ogystal â'r uchod, mae PCGC yn adrodd yn rheolaidd i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Felindre. Cyflwynir adroddiadau chwarterol ar ein perfformiad a chydymffurfiaeth â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd.

Ym mis Mai 2024, gwnaethom sefydlu Fforwm Llywodraethu Prynu i Dalu (P2P) Cymru Gyfan newydd i ddatblygu mentrau P2P ledled Cymru ar sail Unwaith i Gymru er mwyn gwella a symleiddio effeithlonrwydd a chyfleoedd. Mae Grŵp Llywodraethu P2P Cymru Gyfan yn adrodd i Fforwm y Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyllid i gytuno ar y newidiadau a gynigir, gyda'r llywodraethu lefel uchel trosfwaol yn gweithredu drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau.

## 2.6 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Yn ogystal â'r uchod, mae PCGC yn adrodd yn rheolaidd i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Felindre. Cyflwynir adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar ein perfformiad a'n cydymffurfiaeth â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd.

Darperir adroddiadau blynyddol hefyd i'r Pwyllgor ar waith Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) gan Gyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth arweiniol a'r Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol. Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd y Pwyllgor fwyfwy am sicrwydd ynghylch datblygiadau Fferyllfeydd Cymru Gyfan a fydd yn parhau i 2025-26.

## 2.7 Llywodraethu Prynu i Dalu (P2P) Cymru Gyfan

Ym mis Mai 2024, gwnaethom sefydlu fforwm Llywodraethu Prynu i Dalu (P2P) Cymru Gyfan newydd i ddatblygu mentrau P2P ledled Cymru ar sail Unwaith i Gymru i wella a symleiddio arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd. Mae Grŵp Llywodraethu P2P Cymru Gyfan yn adrodd i Fforwm y Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyllid i gytuno ar y newidiadau a gynigir, gyda'r trefniadau llywodraethu lefel uchel trosfwaol yn gweithredu drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn ystod 2024-25.

## 2.8 Yr Uwch Grŵp Arwain

Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn adrodd i Gadeirydd yr SSPC, ac mae'n gyfrifol am berfformiad cyffredinol PCGC; mae'n atebol i'r SSPC mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny a ddirprwywyd iddynt gan yr SSPC. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn pennu ac yn arwain Grŵp Arweinyddiaeth Uwch i gyflawni Cynllun Busnes blynyddol yr SSPC fel y nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan yr SSPC. Y Rheolwr Gyfarwyddwr yw’r Swyddog Atebol dynodedig ar gyfer PCGC ac mae’n atebol, trwy arwain yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth, am y canlynol:

- perfformiad a chyflawniad PCGC trwy baratoi’r Cynllun Tymor Canolig Integredig a gaiff ei ddiweddaru bob blwyddyn yn seiliedig ar y polisïau a’r strategaethau a osodir gan yr SSPC, a pharatoi Cynlluniau Gwella Gwasanaethau;
- arwain yr Uwch Grŵp Arwain i gyflenwi’r Cynllun Tymor Canolig Integredig a’r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau;
- sefydlu Cynllun Dirprwyo priodol ar gyfer yr Uwch Grŵp Arwain; a
- sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau mewnol digonol ar waith, fel bod swyddogaethau a ddirprwywyd yn cael eu cyflawni’n briodol ac yn ddoeth.

Roedd y r Uwch Grŵp Arwain yn ystod 2024-25 yn cynnwys:

<u>Ffigur 7 – Cyfansoddiad yr Uwch Grŵp Arwain yn ystod 2024-25</u>

| Enw | Swydd |
|---|---|
| Neil Frow, OBE | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Andy Butler | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>*(hyd at 30 Ebrill 2024)* |
| Alison Ramsey | Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg<br>*(hyd at 30 Ebrill 2024)*<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>*(o 1 Mai 2024)* |
| Gareth Hardacre | Cyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth |

| | |
|---|---|
| Rebecca Nelson | Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg *(o 5 Awst 2024)* |
| Jonathan Irvine | Cyfarwyddwr Caffael, Logisteg y Gadwyn Cyflenwi a Thrafnidiaeth a Gwasanaethau Golchdy |
| Simon Cookson | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd |
| Mark Harris | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg a Chronfa Risg Cymru |
| Nicola Phillips | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Gwasanaeth Archwilio Meddygol |
| Stuart Douglas | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol |
| Dr Ruth Alcolado | Cyfarwyddwr Meddygol |
| Dr Gavin Hughes | Cyfarwyddwr Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol |
| Colin Powell | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol Fferyllol |
| Alwyn Hockin | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| Claire Daw | Cynrychiolydd Undeb Llafur |

Adolygwyd a diweddarwyd Cylch Gorchwyl yr Uwch Grŵp Arwain ym mis Rhagfyr 2024 er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.

## 3. DIBEN Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Nod y system rheolaeth fewnol yw cadw risgiau ar lefel resymol, yn hytrach na dileu’n llwyr y risg y bydd PCGC yn methu â chyflawni’i pholisïau, ei nodau a’i hamcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei roi felly ynghylch effeithiolrwydd, yn hytrach na sicrwydd absoliwt. Mae’r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus, sydd â’r nod o gofnodi a blaenoriaethu’r risgiau, gwerthuso’r tebygolrwydd y cânt eu gwireddu a’r effaith y byddent yn ei chael, a’u rheoli’n effeithiol, effeithlon ac yn ddarbodus. Mae’r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn PCGC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

### 3.1 Archwilio Allanol

Archwilio Cymru yw archwilwyr allanol PCGC. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gweithio'n adeiladol gydag Archwilio Cymru, ac roedd y meysydd a archwiliwyd ym mlwyddyn ariannol 2024-25 yn cynnwys:

- Datganiadau Sefyllfa (i bob cyfarfod);
- Adroddiad Sicrwydd ar gyfer Systemau TG GIG Cymru a letyir gan PCGC ;
- Llythyr Rheoli 2023-24; a
- Threfniadau Sicrwydd 2024-25.

Caiff gwaith archwilwyr allanol ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio trwy adroddiadau cynnydd rheolaidd. Ystyrir eu gwaith yn brydlon ac yn broffesiynol. Mae’r argymhellion yn berthnasol ac yn fuddiol i’r gwaith o lunio trefniadau sicrwydd a llywodraethu cyffredinol a lleihau risg. Mae

perthnasau clir ac agored â swyddogion, ac mae’r adroddiadau yn gynhwysfawr ac yn ddestlus.

Yn ogystal â materion mewnol yn PCGC, mae’r archwilwyr allanol wedi diweddaru’r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd ynghylch datblygiadau ledled GIG Cymru ac mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Mae’r trafodaethau hyn wedi helpu’r Pwyllgor Archwilio i wella’i ymwybyddiaeth o gyd-destun ehangach ei waith.

### 3.2 Archwilio Mewnol

Darperir gwasanaeth Archwilio Mewnol PCGC gan Is-adran Archwilio a Sicrwydd PCGC, fel y mae ar gyfer holl sefydliadau GIG Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu ac yn ystyried gwaith a chanfyddiadau'r tîm Archwilio Mewnol ym mhob cyfarfod ac yn gwneud cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol cymeradwy. Mae’r Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd a’r Pennaeth Archwilio Mewnol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i drafod eu gwaith a chyflwyno eu canfyddiadau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn fodlon ar y trefniadau cyswllt a chydlynu rhwng yr archwilwyr allanol a mewnol.

Cyflwynwyd datganiadau chwarterol yn rhoi sicrwydd ar unrhyw feysydd archwilio yr aseswyd bod ganddynt “dim sicrwydd” neu “sicrwydd cyfyngedig” i Lywodraeth Cymru yn unol â’r cyfarwyddyd a dderbyniwyd ym mis Gorffennaf 2016. Yn ystod 2024-25, cafodd dau adroddiad archwilio mewnol eu graddio fel rhai cyfyngedig, fel y manylir isod, ac nid oedd unrhyw adroddiadau archwilio mewnol heb unrhyw sicrwydd.

- Datgarboneiddio
- Gwasanaethau Caffael – y Tîm Cyfarparu Cyfalaf

Ar gyfer archwilio mewnol ac allanol ill dau, mae’r Pwyllgor Archwilio wedi sicrhau bod y camau gweithredu ar gyfer rheolwyr y cytunwyd arnynt yn sgil gwendidau a adroddwyd wedi cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol. Mae angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer rhoi cynlluniau gweithredu ar waith. Caiff adroddiad ar y sefyllfa o ran gweithredu argymhellion archwilio ei fonitro ym mhob cyfarfod misol yr Uwch Grŵp Arwain Lefel Uwch a phob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

Roedd yr adroddiadau yn amserol ac roeddent wedi helpu’r Pwyllgor i wella’i ddealltwriaeth o’r risgiau ariannol a gweithredol. Yn ogystal â hyn, mae’r archwilwyr mewnol wedi darparu gwybodaeth meincnodi werthfawr yn ymwneud ag arferion gorau ledled GIG Cymru.

Cynhaliwyd yr asesiad ansawdd allanol pum mlynedd gofynnol o’r Tîm Archwilio Mewnol yn fwyaf diweddar gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn ystod y cyfnod 2023/24 yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (y Safonau), ac arweiniodd at ddyfarnu'r sgôr uchaf bosibl i'r Gwasanaeth. Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio neu gydymffurfiaeth rannol â'r safonau.

Mae’r Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn gyda chanlyniadau adolygiad ansawdd mewnol, y cyflwynwyd yr un diweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2024 gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddau ganfyddiad ymgynghorol asesu ansawdd allanol ac adolygiad ansawdd o 16 ffeil archwilio sy'n cwmpasu holl sefydliadau GIG Cymru. Ar y cyfan, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol ac yn dangos lefel uchel o ansawdd yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf. Mewn nifer fach o achosion, roedd angen trafodaethau gyda’r Pennaeth Archwilio Mewnol i gadarnhau canfyddiadau a nodwyd mân eithriadau. Yn seiliedig ar yr adolygiadau a gynhaliwyd, nid oedd unrhyw faterion penodol yr oedd angen eu hadrodd ym marn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol o ran cydymffurfio â'r Safonau.

### 3.3 Gwrth-dwyll

Nod y Gwasanaethau Atal Twyll  Lleol (LCFS) yw sicrhau bod nifer yr achosion o dwyll (a/neu lygredd) yn PCGC mor isel â phosibl. Mae gweithgarwch Atal Twyll yn PCGC yn cael ei gyflawni'n bennaf gan ei Rheolwr Atal Twyll Lleol pwrpasol ei hun sydd â chysylltiadau â'r rhwydwaith ehangach o weithwyr proffesiynol gwrth-dwyll yn GIG Cymru a'r Gwasanaeth Atal Twyll Cenedlaethol.

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio adroddiadau rheolaidd er mwyn monitro'r cynnydd a’r galw yn erbyn y Cynllun Atal Twyll, a oedd yn cynnwys adroddiadau am y canlynol:

- Adroddiad Blynyddol 2023-24;
- Diweddariad ar Gynnydd ym mhob cyfarfod; a
- Chynllun Gwaith y Gwasanaeth Atal Twyll 2024-25.

Fel rhan o'i waith, mae gan y Rheolwr Gwrth-dwyll Lleol raglen flynyddol reolaidd o godi ymwybyddiaeth o dwyll; caiff nifer o ddiwrnodau eu dyrannu ar gyfer y rhaglen hon a'u cynnwys fel rhan o Gynllun Gwaith y cytunwyd arno, sy'n cael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn. Mae cydbwysedd y cynllun wedi'i bwysoli tuag at weithgarwch rhagweithiol ac ataliol, addysg ac ymwybyddiaeth.

Yn rhan o’r cynllun gwaith hwnnw, trefnir sesiynau i godi ymwybyddiaeth o dwyll, a chânt eu cynnal gyda grwpiau amrywiol o staff. Yn y sesiynau hyn, bydd gwybodaeth am sut i adrodd am dwyll ac i bwy y dylid rhoi gwybod. Yn ystod 2024-25, mae’r sesiynau hyn wedi’u darparu mewn sesiynau wyneb yn wyneb a sesiynau rhithiol. At ei gilydd yn ystod 2024-25, roedd 1,557 o ryngweithiadau ymwybyddiaeth o dwyll gyda’r staff (937 yn 2023-24).

Yn ogystal â hyn, ac er mwyn parhau i hyrwyddo Diwylliant Gwrth-dwyll o fewn PCGC, cynhyrchir cylchlythyr chwarterol sydd ar gael i'r holl staff ar y fewnrwyd a rhoddir cyhoeddusrwydd i bob erlyniad llwyddiannus er mwyn cael yr effaith ataliol fwyaf. Targedodd yr Uwch Grŵp Arwain grwpiau staff

i gwblhau'r modiwl e-ddysgu ar Wrth-dwyll; erbyn diwedd mis Mawrth 2025, roedd dros 1,000 o staff wedi cwblhau'r modiwl.

### 3.4 Llywodraethu Integredig

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio gwaith cynnal a chadw ac effeithiolrwydd y system lywodraethu integredig. Mae wedi goruchwylio'r broses gyfan trwy geisio adroddiadau penodol am sicrwydd, sy'n cynnwys:

- Y Cynllun Sicrhau Ansawdd a Gwella, sy'n deillio o'r hunanasesiad Archwilio Mewnol 2023–24;
- Tracio argymhellion archwilio;
- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol;
- Mapiau Sicrwydd Cyfarwyddiaethau; ac
- Adroddiadau Materion Llywodraethu ynghylch tendrau unigol, datganiadau o fuddiannau a rhoddion a lletygarwch a dderbyniwyd ac a wrthodwyd.

Yn ystod 2024-25, adroddodd y Pwyllgor Archwilio am unrhyw feysydd o bryder i'r SSPC a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a chwaraeodd ran ragweithiol wrth gyfleu gwelliannau awgrymedig i weithdrefnau llywodraethu a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

### 3.5 Sicrhau Ansawdd

Cyflwynodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 y Ddyletswydd Ansawdd, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae'r Ddyletswydd newydd yn berthnasol i wasanaethau clinigol ac anghlinigol y GIG, ac felly bydd gwasanaethau a swyddogaethau PCGC yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon. Mae gofyniad i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol.

O dan ofynion y Ddeddf, y Rheolwr-gyfarwyddwr fel y Swyddog Atebol sy'n bennaf gyfrifol, a'r Cyfarwyddwr Meddygol sy'n arwain y cyfeiriad strategol a throsolwg. Yr SSPC sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth. Mae'r cyfrifoldeb i adrodd yn ddeublyg – yn fewnol o ran ein mesurau ansawdd ein hunain, ond hefyd yn allanol o ran darparu gwybodaeth i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau adrodd ar eu perfformiad eu hunain. Yn ogystal, mae gan yr Ymddiriedolaeth, fel ein sefydliad lletya, ddiddordeb dilys yn ein trefniadau ansawdd.

Mae’r SSPC yn rhoi sylw i sicrhau ansawdd gwasanaethau drwy gynnwys adran ar “Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf” fel un o’r ystyriaethau craidd ar dempled adroddiad y pwyllgor wrth ddrafftio adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr SSPC.




Mae Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad Felindre yn neilltuo rhan o'i gyfarfodydd i faterion PCGC, ac yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â datblygiadau Fferylliaeth Cymru Gyfan.

Yn ogystal â hyn, mae ansawdd gwasanaethau yn rhan bwysig iawn o’r trafodaethau rhwng PCGC a chyfarwyddwyr perthnasol Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn ystod cyfarfodydd adolygu chwarterol. Ers i’r Ddyletswydd Ansawdd gael ei chyflwyno, mae hyn wedi dod yn nodwedd fwy amlwg, ac mae cyflwyniadau ddwywaith y flwyddyn ar y pwnc hwn wedi'u gwneud i Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau.

Yn ogystal â threfniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer rheoli risg, mae'r Gwasanaethau Caffael yn parhau i gydymffurfio ac ardystio â nifer o safonau cenedlaethol a rhyngwladol fel sy'n briodol i ddarparu ei wasanaethau. Maent yn cynnwys Safon Rheoli Ansawdd ISO 9001, Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol BS ISO 45001 a Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid. Mae ein warysau rhanbarthol a’n canolfan ddosbarthu genedlaethol yng Nghasnewydd hefyd wedi’u hachredu i Safon Diogelwch Bwyd STS ar gyfer storio a dosbarthu cynhyrchion bwyd. Mae derbyn, storio a dosbarthu deunydd fferyllol a chyffuriau rheoledig mewn warysau dynodedig yn cydymffurfio ag Arferion Dosbarthu Da ac amodau trwyddedau;r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Mae cydymffurfiad â'r safonau hyn a'u harchwiliad cysylltiedig gan gyrff allanol yn cael ei gefnogi a'i sicrhau gan gynllun archwilio mewnol cadarn sy'n amlygu unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio a chyfleoedd i wella. Mae ein Cynllun Ansawdd yn cynnwys amcanion gwella sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn gyson ac yn parhau i gefnogi amcanion strategol ar gyfer yr Is-adran.

### 3.6 Ardystiadau

Mae gan y sefydliad nifer o ardystiadau corfforaethol sy'n cefnogi’r gwaith o ddarparu a gwella gwasanaethau o safon yn barhaus, gan gynnwys cyflawni achrediadau sefydliadol yn unol â Safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid (CSE) achrededig Swyddfa'r Cabinet a Safonau Rheoli Amgylcheddol Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO) 14001:2015.

Mae gan lawer o Wasanaethau o fewn PCGC hefyd ardystiadau a safonau sydd wedi'u gwirio'n annibynnol, gan gynnwys Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO27001, Rheoli Ansawdd ISO9001, Taflen Ddata

Deunyddiau a Diogelwch ISO11014, Rheoli Iechyd a Diogelwch ISO45001, Dadansoddi Risg a Rheoli Biohalogi (RABC) ISO14065 mewn Golchdai a Safonau Profi a Graddnodi Labordai ISO17025. Roedd adolygiadau archwilio allanol yn cynnwys Trwyddedu Cludo Nwyddau Peryglus, Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ac mae PCGC hefyd yn sefydliad Hyfforddwr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl achrededig.

Ymhlith y cyflawniadau sefydliadol allweddol ar gyfer ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd yn 2024/25, roedd parhau i godi ymwybyddiaeth gyda sesiynau pwrpasol a gynhaliwyd gyda'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, yr Uwch Grŵp Arwain ac adrannau, boreau coffi staff, y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ansawdd ar gyfer rhannu arferion gorau, creu cyflwyniadau fideo gan Wasanaethau yn manylu ar eu mesurau ansawdd, adrodd wedi’i ysgogi gan ansawdd ac ystyried ein mesurau perfformiad 'parhaol', rheoli ansawdd a defnyddio data ar gyfer gwella ansawdd ac adolygiadau ansawdd allanol, ardystiadau a gwobrau fel ffynhonnell sicrwydd a chyfle i wella ymhellach.

### 3.7 Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid

Ym mis Hydref 2023, cafodd PCGC ei hachredu â Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid (CSE) ar lefel sefydliadol, sy’n golygu mai hwn yw’r sefydliad cyntaf yn GIG Cymru i gyrraedd safon y llywodraeth uchel ei gwerth.

Mae’r achrediad CSE yn asesu sefydliadau ac yn mesur meysydd sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid y mae ymchwil wedi'u nodi eu bod yn flaenoriaeth i gwsmeriaid, gyda ffocws penodol ar y canlynol:

- Mewnwelediad gan Gwsmeriaid;
- Diwylliant y Sefydliad;
- Gwybodaeth a Mynediad;
- Cyflwyno ac Amseroldeb; ac
- Ansawdd y Gwasanaeth.

O fewn y fframwaith hwn, mae CSE hefyd yn blaenoriaethu tri maes amlwg, fel sbardun gwelliant parhaus; fel arf datblygu sgiliau; ac fel dilysiad annibynnol o gyflawniad.

Cynhaliwyd yr ailasesiad blynyddol cyntaf ym mis Medi 2024, a chynhaliwyd y gweithgaredd o bell ar gyfer pob Adran. Cytunwyd ar gynllun asesu ar gyfer 5 diwrnod o weithgarwch casglu tystiolaeth ar gyfer dau Aseswr gyda chynrychiolaeth o bob Adran (rheolwyr, staff a chwsmeriaid).

Fel rhan o'r broses ailasesu, cyflawnodd PCGC 12 o Nodau ‘Compliance Plus’, gan ddangos bod y sefydliad wedi rhagori ar y safonau gofynnol. Hefyd, cyflawnodd PCGC 45 o Gydymffurfiaethau, lle cyflawnwyd y safon ofynnol ym mhob achos, heb unrhyw Gydymffurfiaethau Rhannol i'w hystyried fel meysydd i'w gwella.

### 3.8 Edrych i’r dyfodol

O ganlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn fodlon bod gan y Bartneriaeth Cydwasanaethau (PCGC) reolaethau mewnol priodol a chadarn ar waith, a bod y systemau llywodraethu sydd wedi'u hymgorffori yn y Rheolau Sefydlog wedi'u hymgorffori'n llawn yn PCGC.

Gan edrych ymlaen at 2025-26, bydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i archwilio'r sicrwydd ariannol, rheoli, llywodraethu ac ansawdd sy'n elfen hanfodol o lwyddiant PCGC.

Yn benodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn:

- parhau i archwilio trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol PCGC;
- monitro’n fanwl y risgiau y mae PCGC a’i darparwyr pwysicaf yn eu hwynebu;
- gweithio’n agos â grŵp Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio ar faterion yn ymwneud â llywodraethiant ariannol sy’n effeithio ar GIG Cymru a’r sector cyhoeddus yn ehangach;
- gweithio’n agos ag archwilwyr allanol a mewnol ar faterion sy’n deillio o agenda presennol a dyfodol PCGC;
- Sicrhau bod yr SSPC yn ymwybodol o'i waith gan gynnwys datblygiadau cadarnhaol ac anffafriol; a
- Gofyn am nifer o sesiynau golwg manwl i fynd i’r afael â meysydd penodol, er mwyn sicrhau bod modd rhoi sicrwydd digonol i’r Pwyllgor Archwilio ac i’r SSPC.

## 4. Y GALLU I DDELIO Â RISG

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod yr Uwch Grŵp Rheoli Ffurfiol, yr SSPC a'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y risgiau allweddol yn cyd-fynd â chyflawni, a’u bod yn cael eu hystyried a'u craffu'n briodol. Mae’r gofrestr wedi’i rhannu yn ddwy adran fel a ganlyn:

- **Risgiau i Weithredu Arnynt** – mae hyn yn cynnwys pob risg lle mae angen gweithredu pellach i gyrraedd y sgôr darged. Yn achos y risgiau hyn, dylid canolbwyntio ar sicrhau y caiff y camau gofynnol eu cwblhau’n amserol; a

- **Risgiau i’w Monitro** – mae hyn ar gyfer risgiau sydd wedi cyflawni eu sgôr darged, ond mae’n rhaid iddynt aros ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol oherwydd eu heffaith bosibl ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Yn achos y risgiau hyn, mae’r ffocws ar fonitro unrhyw newidiadau i natur y risg (e.e. oherwydd newidiadau amgylcheddol allanol) ac ar sicrhau bod rheolaethau a chamau gweithredu presennol yn parhau i fod yn effeithiol (e.e. trwy fapio sicrwydd).

Ar 31 Mawrth 2025, roedd chwe risg â sgôr goch ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, fel y nodir isod:

- Y bygythiad i wasanaethau cleifion os na fydd cyllid ar gael i ddatblygu'r rhaglen Trawsnewid Mynediad at Wasanaethau Meddygaeth yn Ne-ddwyrain Cymru;
- Cyllid cyfalaf annigonol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a blaenoriaethau Gweinidogol;
- Yr anghydfod â chyflenwr y System Gwybodaeth am y Gweithlu Gofal Sylfaenol yn achosi oedi ar y dyddiad mynd yn fyw ac ansicrwydd ynghylch manylebau'r gwaith adeiladu;
- Yr effaith ar amser ac adnoddau staff fel gofyniad i ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID 19 y DU; a
- Chyfyngiadau ar adnoddau sy'n atal gallu PCGC i fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd wrth chwarae rhan flaenllaw wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio GIG Cymru; ac
- Y diffyg cyllid cyfalaf sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni mentrau allweddol, gan gynnwys datgarboneiddio.

Mae gan yr SSPC gyfrifoldeb ac awdurdod cyffredinol dros raglen rheoli risg PCGC, trwy dderbyn a gwerthuso adroddiadau sy'n nodi statws a chynnydd camau i reoli risg.

Y Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer risg yw'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n gyfrifol am sefydlu systemau a phrosesau sydd eu hangen ar gyfer rheoli risgiau o fewn y sefydliad.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth wedi'i chymeradwyo ar gyfer rheoli risg, ac mae gan PCGC brotocol rheoli risg sy'n seiliedig ar strategaeth ei sefydliad lletyol. Mae hyn yn golygu bod ymagwedd glir a systematig tuag at reoli risg yn PCGC.

Mae PCGC yn ceisio integreiddio prosesau rheoli risg fel nad yw'n cael ei ystyried yn swyddogaeth ar wahân, ond yn hytrach yn rhan annatod o weithgareddau rheoli bob dydd PCGC, gan gynnwys swyddogaethau ariannol, iechyd a diogelwch ac amgylcheddol.

Mae pob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau yr eir i'r afael â risgiau yn y lleoliadau hynny sy'n berthnasol i'w Cyfarwyddiaethau. Mae hefyd yn bwysig bod strwythur effeithiol ar waith ledled PCGC ar gyfer rhoi adborth, fel y caiff risgiau rheng flaen eu dwyn i sylw i Gyfarwyddwyr.

Mae gofyn i bob Cyfarwyddwr roi diweddariad ynghylch y gofrestr risg sy'n benodol i'w gyfarwyddiaeth yn ystod cyfarfodydd adolygu chwarterol gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr. Mae pob risg sydd wedi'i chategoreiddio fel risgiau coch o fewn cofrestrau cyfarwyddiaethau unigol yn sbarduno atgyfeiriad i'w adolygu, ac os ystyrir yn briodol, caiff y risg ei hychwanegu at Gofrestr Risg Gorfforaethol PCGC i'w goruchwylio gan yr Uwch Grŵp Arwain, yr SSPC a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae mapiau sicrwydd ar waith ar gyfer pob un o'r cyfarwyddiaethau i roi darlun o sut mae'r risgiau gweithredol allweddol, neu risgiau busnes-fel-

arfer, yn cael eu lliniaru. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r holl fapiau sicrwydd yn rheolaidd, a'r bwriad yw eu hadolygu a chyflwyno adroddiad amdanynt yn haf 2026.

Mae hefyd gan yr SSPC Ddatganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg cofnodedig ar gyfer PCGC. Cynhaliwyd adolygiad manwl yn ystod y flwyddyn o fewn PCGC a hefyd yn Niwrnod Datblygu Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC), a gynhaliwyd yn hydref 2024. Mae aelodau'r SSPC yn parhau i herio'r PCGC i fod yn fwy beiddgar o ran ei hymagwedd at risg. Cymeradwywyd y Datganiad Parodrwydd i dderbyn risg diwygiedig yng nghyfarfod yr SSPC ym mis Tachwedd 2024, ac mae i fod i gael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Uwch Grŵp Arwain yn parhau i gynnal sesiynau golwg manwl anffurfiol, gan adolygu ei ddull o reoli risg a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae dull PCGC o reoli risgiau felly yn sicrhau:

- bod arweiniad ynghlwm wrth y broses o reoli risg;
- bod staff yn cael hyfforddiant ar sut i nodi a rheoli risg;
- bod risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u blaenoriaethu, gan sicrhau bod y camau lliniaru priodol yn cael eu hamlinellu ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol;
- y caiff effeithiolrwydd rheolaethau allweddol eu gwirio'n rheolaidd; ac
- y cydymffurfir yn llawn â'r Llyfr Oren ar Reoli Risg.

## 5. Y FFRAMWAITH RHEOLI

Mae ymrwymiad PCGC i'r egwyddor y caiff risg ei rheoli'n effeithiol yn golygu ffocws parhaus i sicrhau:

- ein bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol lle gallai peidio â chydymffurfio beri risg ddifrifol;
- bod pob ffynhonnell a chanlyniad risg yn cael eu nodi, ac y caiff risgiau eu hasesu a naill ai eu dileu neu eu lleihau; y caiff gwybodaeth ynghylch risg ei rhannu â staff ledled PCGC a chyda sefydliadau partner trwy'r SSPC a'r Pwyllgor Archwilio;
- bod nifer yr achosion o ddifrod ac anafiadau yn cael eu lleihau, a bod iechyd a llesiant staff yn cael eu hoptimeiddio; ac
- y caiff gwersi eu dysgu yn sgil canmoliaeth, digwyddiadau a hawliadau er mwyn rhannu'r arferion gorau a'i gwneud yn llai tebygol y byddant yn digwydd eto.

### 5.1 Y Fframwaith Risg Gorfforaethol

Mae'r gweithdrefnau manwl ar gyfer rheoli risg gorfforaethol wedi eu hamlinellu uchod. Yn gyffredinol, i liniaru risgiau yn ymwneud â llywodraethu, mae PCGC yn rhagweithiol wrth adolygu ei gweithdrefnau llywodraethu ac wrth sicrhau bod rheoli risgiau wedi ei ymgorffori yn ei holl weithgarwch, gan gynnwys y canlynol:

- mae PCGC yn cael ei llywodraethu gan Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, sy’n cael eu hadolygu bob blwyddyn;
- mae gan yr SSPC a’r Pwyllgor Archwilio ill dau flaengynlluniau gwaith ar gyfer busnes pwyllgor sy’n darparu fframwaith sicrwydd ar gyfer cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaeth a rheoliadau;
- caiff effeithiolrwydd strwythurau llywodraethu ei adolygu’n rheolaidd, gan gynnwys trwy holiaduron effeithiolrwydd;
- mae profforma clawr blaen adroddiadau’r SSPC yn cynnwys dadansoddiad effaith cryno i’w gwblhau cyn i’r adroddiad gael ei gyflwyno. Mae hyn yn rhoi crynodeb o’r goblygiadau posibl sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, goblygiadau cyfreithiol, ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion, risgiau a sicrwydd, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (Dyletswydd Ansawdd) a'r gweithlu;
- mae’r Cytundebau Lefel Gwasanaeth sydd ar waith gyda sefydliadau GIG Cymru yn nodi’r trefniadau gweithredol ar gyfer y gwasanaethau y mae PCGC yn eu darparu iddynt, a chaiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn; ac
- mae cyfrifoldebau cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu mewn Adolygiadau Blynyddol o Berfformiad a Datblygiad (PADRs).

## 5.2 Polisïau a Gweithdrefnau

Mae PCGC yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yr Ymddiriedolaeth fel y sefydliad lletyol. Yn ogystal â hyn, mae nifer o bolisïau gweithlu wedi eu datblygu a’u lledaenu ledled Cymru trwy Fforwm Partneriaeth Cymru, ac mae’r rhain yn berthnasol i bob aelod o staff yn PCGC.

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o’r fewnrwyd lle mae’r polisïau a’r gweithdrefnau ar gael ac mae ganddynt oll fynediad ati. Mewn nifer o achosion mae canllawiau atodol wedi eu darparu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod gan PCGC fynediad i holl bolisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth, a bod unrhyw newidiadau i'r polisïau yn cael eu gwneud yn hysbys fel y cytunwyd arnynt. Mae PCGC yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau’r gweithlu ac mae wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori â staff.

Bydd yr SSPC, lle y bo hynny’n briodol, yn datblygu ei brotocolau ei hun neu’n diwygio polisïau, os ydynt yn berthnasol i swyddogaethau busnes PCGC. Mae’r Rheolwr Gyfarwyddwr a swyddogion dynodedig eraill PCGC wedi eu cynnwys yng Nghynllun Dirprwyo yr Ymddiriedolaeth.

## 5.3 Llywodraethu Gwybodaeth

Mae PCGC wedi sefydlu trefniadau ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei rheoli yn unol â’r gyfraith a deddfwriaeth foesegol berthnasol, rheoliadau cymwys ac mae’n dilyn cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys cyfreithiau sefydledig fel y Ddeddf Diogelu Data, Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin, y Ddeddf Hawliau Dynol, Adroddiad Caldicott ac egwyddorion penodol yn ymwneud â rheoli cofnodion.

Cynyddodd Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y cyfrifoldebau i sicrhau bod y data y mae PCGC yn eu casglu, a'u prosesu wedi hynny, at ddibenion cydnaws, a'u bod yn parhau i fod yn ddiogel ac yn gyfrinachol tra byddant yn ei gofal.

Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yw'r Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth dynodedig (SIRO) mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer PCGC. Mae gan PCGC Reolwr Llywodraethu Gwybodaeth, sydd â'r nod o hwyluso'r defnydd effeithiol o reolaethau a mecanweithiau er mwyn sicrhau bod staff yn cydymffurfio ag egwyddorion a gweithdrefnau sylfaenol Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys cyflawni modiwl e-ddysgu fframwaith hyfforddi sgiliau craidd am Lywodraethu Gwybodaeth, hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth (lle bo hynny'n bosibl) ar gyfer grwpiau staff y nodwyd eu bod yn risg uchel, datblygu ac adolygu polisïau a phrotocolau i ddiogelu gwybodaeth a chynnig cyngor ar doriadau Llywodraethu Gwybodaeth sydd wedi eu cofnodi ar system adrodd Datix, ac ymchwilio iddynt.

Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfrifol am sicrhau bod diogelu cyfrinachedd yn parhau i fod yn uchel iawn ar yr agenda. Mae hyn yn cynnwys adran bwrpasol ar y fewnrwyd a phwynt cyswllt penodedig ar gyfer unrhyw geisiadau am gyngor, hyfforddiant neu waith.

Mae gan PCGC Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth ac sy'n cyflawni rôl Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth ar gyfer PCGC. Bob chwarter, mae'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth yn trafod materion fel Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddfwriaeth Diogelu Data, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Perchnogaeth Asedau Gwybodaeth, Toriadau Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Cofnodion, cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant, canllawiau a deunyddiau hyfforddiant newydd, meysydd sy'n peri pryder a'r wybodaeth a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Mae gan PCGC gyfres o brotocolau a chanllawiau a ddefnyddir i hyfforddi staff ynghylch pwysigrwydd cyfrinachedd ac i godi eu hymwybyddiaeth amdano, ac i sicrhau bod pob maes yn cael sylw. Mae'r rhain yn cynnwys arferion da o ran cyfrineiriau ac e-byst, protocolau cryno a chanllawiau cyffredinol ar gyfer staff. Mae proses ar waith o'r enw Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (neu "Preifatrwydd Trwy Ddyluniad") hefyd i sicrhau y caiff egwyddorion Llywodraethu Gwybodaeth eu hystyried yng nghamau cynnar prosiectau, prosesau a llifoedd gwaith sy'n bwriadu defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy ar ryw ffurf.

Mae PCGC wedi datblygu proses Asesiad Effaith Integredig i gynnwys gofynion sicrwydd ehangach o ran deddfwriaeth a rheoliadau, ac mae'r profforma yn cynnwys yr angen i ystyried effaith nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys hil, rhyw a chrefydd) ar y gwahanol fathau o brotocolau Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithio'n agos gyda Swyddog Diogelu Data'r Ymddiriedolaeth fel Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth o fewn yr Ymddiriedolaeth, ac yn mynychu amrywiol

gyfarfodydd gan gynnwys Grŵp Ymgynghorol Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru (IGMAG), a gynhelir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) y mae pob Corff Iechyd GIG Cymru yn rhan ohono.

## 5.4 Iechyd a Diogelwch

Mae PCGC yn rhoi'r pwys mwyaf ar iechyd, diogelwch a lles staff ac ymwelwyr. Ystyrir ei bod yn hanfodol bod rheolwyr a staff yn cydweithio'n gadarnhaol i sicrhau amgylchedd sy'n gydnaws â darparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf i staff ac ymwelwyr lle mae peryglon iechyd i staff ac ymwelwyr ac eraill yn cael eu lleihau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Amcan PCGC yw darparu a chynnal amgylchedd diogel ac iach i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Cyflawnir hyn trwy arweinyddiaeth effeithiol uwch reolwyr, cyfranogiad yr holl staff a sianeli cyfathrebu agored ac ymatebol.

Mae gan PCGC rwydwaith sefydledig o hyrwyddwyr Iechyd a Diogelwch ym mhob adran sy'n cyfarfod â'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch bob chwarter. Yn ogystal, mae grŵp Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan yn grŵp mewnol o uwch reolwyr o bob is-adran; caiff y grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, ac mae hefyd yn cyfarfod bob chwarter.

Darperir adroddiad cynhwysfawr o'r holl ddigwyddiadau a gweithgarwch i'r Uwch Grŵp Arwain ar ddiwedd pob chwarter, a chyflwynir adroddiad blynyddol i'r Uwch Grŵp Arwain a'r SSPC. Adroddwyd am 72 o ddigwyddiadau iechyd a diogelwch ar gyfer 2024-25 (72 yn 2023-24).

Yn ystod y cyfnod, cynhaliwyd amserlen o archwiliadau mewnol iechyd a diogelwch gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch a'r Swyddog Cymorth Iechyd a Diogelwch gan ddefnyddio'r Fframwaith System Rheoli Iechyd a Diogelwch (HSG65). Y gydymffurfiaeth a adroddwyd ar ddiwedd mis Mawrth ar gyfartaledd oedd 94%.

Mae'r rheolwr Iechyd a Diogelwch yn aelod o Grŵp Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth, ac mae'n cydweithio'n agos â Rheolwr Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o risgiau iechyd a diogelwch yn PCGC.

## 5.5 Archwilio Mewnol

O dan gytundeb lletya'r PCGC, nodir y bydd rhaid i'r SSPC sefydlu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol fel ffynhonnell allweddol ar gyfer ei drefniadau sicrwydd mewnol, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo strategaeth archwilio mewnol ar gyfer PCGC sy'n berthnasol i bob adran a phroses yn y sefydliad, ac sy'n ddigonol i roi sicrwydd i Reolwr Gyfarwyddwr PCGC, ac

i'r SSPC ac i'r Ymddiriedolaeth fel y sefydliad sy'n lletya yn eu tro, ynghylch y fframwaith rheolaeth fewnol sydd ar waith yn PCGC.

Mae cyflawni'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer PCGC yn arwain at ddarparu barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar y prosesau llywodraethu, risg a rheoli sy'n gweithredu o fewn PCGC.  Mae'r farn honno yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr wrth iddo adrodd i SSPC a sefydliadau partner.

### 5.6 Dyletswydd Ansawdd

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y gwaith o ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd (DoQ) ar draws PCGC. Rydym wedi canolbwyntio ar wneud yn siŵr bod sicrhau ansawdd yn cael ei integreiddio i fecanweithiau presennol, fel y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2025-28, ac yn unol â'r mesurau a nodir yn yr adran Sicrhau Ansawdd uchod. Mae ail Adroddiad Blynyddol PCGC ar Ddyletswydd Ansawdd ar gyfer cyfnod 2024-25 yn nodi'r cyflawniadau allweddol yn erbyn y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, gan gynnwys:

- Cynllunio a gwneud penderfyniadau o safon;
- Systemau rheoli ansawdd;
- Adroddiadau a ysgogir gan ansawdd;
- Adroddiadau a ysgogir gan ansawdd i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau;
- Rheoli ansawdd a defnyddio data i wella ansawdd;
- Adolygiadau ansawdd allanol, achrediadau a gwobrau; a
- Lleisiau staff.

## 6. TREFNIADAU CYNLLUNIO

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (y Cynllun) yn cael ei gymeradwyo gan yr SSPC a chaiff perfformiad yn erbyn y cynllun ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Cyflwynwyd cynllun 2024-27 i Lywodraeth Cymru yn unol â'r amserlenni gofynnol, ac mae cyflwyno'r cynllun cyfredol ar gyfer 2025-28 wedi bodloni terfynau amser gofynnol Llywodraeth Cymru yn yr un modd.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddiwygio'r fframwaith perfformiad er mwyn sicrhau ei fod wedi'i integreiddio'n llawn â'r blaenoriaethau allweddol sydd yn y cynllun. Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r targedau perfformiad ar gyfer 2024-25, ac adroddir ar gynnydd yn erbyn pob un o'r rhain i'r Uwch Grŵp Rheoli a'r SSPC. Mae hefyd adrodd rheolaidd yn ôl gofyniad Llywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn y cynllun bob chwarter, a hefyd drwy gyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd (JET).

Mae'r broses gynllunio'n cynnwys ymgysylltu sylweddol â rhanddeiliaid allweddol, yn fewnol ac ar draws GIG Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach, mewn digwyddiadau tîm rhithiol ac ar sail un i un.

Cyflwynwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) i Brif Weithredwr GIG Cymru a Llywodraeth Cymru cyn 31 Mawrth 2025, ac ni wnaed unrhyw welliannau sylweddol i'r Cynllun yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor yn gynharach yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025 a'r cyfarfodydd cyswllt dilynol a gynhaliwyd gyda Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyflenwi Cyllid cyn cyflwyno'r Cynllun.

## 7. DATGANIADAU DATGELU

### 7.1 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu, gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle ym mhopeth a wnawn. Blaenoriaeth PCGC yw meithrin diwylliant lle caiff pawb ei werthfawrogi am y cyfraniad y gall ei wneud i'r gwasanaethau yn GIG Cymru. Fel sefydliad anstatudol a letyir yn yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i PCGC gadw at Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Ymddiriedolaeth, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion, sy'n nodi ymrwymiad a gofynion deddfwriaethol yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo cynhwysiant.

Mae PCGC yn un o gyfranogwyr craidd Grŵp Arweinyddiaeth Cydraddoldeb GIG Cymru (ELG), sy'n gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar draws GIG Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, i gydweithio ar ddigwyddiadau, hwyluso gweithdai, cyflwyno a chynnal sesiynau hyfforddi, cyhoeddi cyfathrebiadau ac erthyglau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd â hyrwyddo urddas a pharch at bawb. Mae PCGC yn rhagweithiol wrth gefnogi sefydliadau GIG Cymru i gwblhau eu cyflwyniad ar gyfer gwasanaethau Cymru gyfan, megis Caffael a Recriwtio. Rydym yn cynnal amrywiaeth o rwydweithiau staff, ac rydym yn parhau i ddatblygu ein cynnig cynhwysiant ar gyfer ein gweithlu.

Yng nghyd-destun gwelliant parhaus, mae PCGC yn aelodau o Rwydwaith y Cyflogwyr dros Gydraddoldeb a Chynhwysiant (ENEI), sy'n cefnogi sefydliadau ar eu taith cydraddoldeb a chynhwysiant. Yn seiliedig ar Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru, mae PCGC wedi datblygu cynllun penodol i fynd i'r afael â'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant PCGC. Mae rhan o'r gwaith hwn wedi'i llywio gan Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu Cymru (WRES), a drafodwyd yn yr SSPC ym mis Mawrth 2025. Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru PCGC hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant y sefydliad. Rydym hefyd wedi cyflwyno Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant pwrpasol i gefnogi'r gwaith o greu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chyfartal.

Datblygwyd y Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Grŵp EDI) yn ganlyniad i raglen ddiwylliant 'Dyma Ein PCGC', lle cydnabu staff yr angen i'r sefydliad flaenoriaethu'r agenda cydraddoldeb a chefnogi gweithwyr. Ar hyn o bryd mae'r Grŵp EDI yn datblygu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i ategu a gyrru newid o fewn y sefydliad.

Mae'r broses ar gyfer cynnal Asesiadau Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIIA) wedi aeddfedu, ac yn ystyried anghenion y nodweddion gwarchodedig a nodwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae hefyd yn cydnabod effeithiau posibl gan alluogwyr allweddol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ymgorffori Cynaliadwyedd Amgylcheddol, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 sy'n ymgorffori Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi 2017, Iaith Gymraeg, Llywodraethu Gwybodaeth ac Iechyd a Diogelwch.

A hithau'n weithredol o 31 Mawrth 2021 ymlaen, gosododd y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd gyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff y GIG, wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o rancanlyniad sy'n deillio o anfantais gymdeithasol-economaidd.

Caiff data personol ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth eu casglu ar y Cofnod Staff Electronig (ESR), ac mae staff yn gyfrifol am ddiweddaru eu cofnodion personol eu hunain ar y system honno. Mae hyn yn cynnwys ethnigrwydd; cenedligrwydd; gwlad enedigol; credoau crefyddol; cyfeiriadedd rhywiol a chymwyseddau Cymraeg. Mae gwasanaeth recriwtio Cymru gyfan, a redir gan PCGC, yn glynu wrth yr holl arferion ac egwyddorion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yn gwirio ansawdd yr hysbysebion a'r wybodaeth ategol i sicrhau nad oes unrhyw elfennau gwahaniaethol yn bresennol.

Mae gan PCGC raglen sefydlu statudol a gorfodol ar gyfer ei gweithlu, gan gynnwys modiwl e-ddysgu "Fy Nhrin yn Deg" GIG Cymru, sy'n rhan o becyn hyfforddi cenedlaethol ac mae'r data ystadegol a gasglwyd ar gyfer ei gwblhau gan PCGC yn cyfrannu at y ffigur cyffredinol ar gyfer GIG Cymru. Mae rhaglen hyfforddiant o'r enw "Core Skills for Managers" ac mae'r modiwl "Managing Conflict" yn cynnwys sesiwn ymwybyddiaeth ynghylch Urddas yn y Gwaith. Ymhellach, i gefnogi Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru (ArWAP), fe wnaeth Llywodraeth Cymru orfodi cwblhau'r modiwl hyfforddi cysylltiedig ar gyfer holl staff y GIG, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn rhyngweithio'n uniongyrchol â chleifion na defnyddwyr gwasanaethau (*WHC 2024/044*).

## 7.2 Y Gymraeg

Mae PCGC wedi ymrwymo i sicrhau y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal yn y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd ac i sefydliadau eraill yn GIG Cymru. Mae hyn yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg [Rhif 7] 2018.

Mae PCGC yn adrodd am y gwaith mae'n ei wneud o ran ei darpariaeth Gymraeg a'i pherfformiad i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn bennaf gan Bennaeth Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg a

Chydymffurfiaeth, sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol ac yn gweithio'n agos gyda phob is-adran a gwasanaeth ar draws PCGC.

Mae Uned Iaith Gymraeg wedi'i sefydlu i gefnogi ein his-adrannau a'n gwasanaethau gyda gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, yn ogystal â rhoi cyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o gynllunio'r modd y darperir gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi sefydlu proses hunanasesu i asesu ein statws cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r Cod Ymarfer. Cytunir ar gynlluniau gwella lleol a chânt eu gweithredu yn y flwyddyn ddilynol yn seiliedig ar yr asesiad a'r dystiolaeth a ddarperir i ategu'r asesiad. Mae'r broses hon yn ein cynorthwyo i ddarparu sicrwydd a gwybodaeth gywir am ein lefelau cydymffurfio. Roedd ein statws cydymffurfedd cyffredinol ar ddiwedd mis Mawrth 2025 fel a ganlyn:

| Safonau | Lefel cydymffurfedd |
|---|---|
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd |
| Safonau Llunio Polisi | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Safonau Gweithredu | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd |
| Safonau Cadw Cofnodion | Lefel uchel o gydymffurfedd |

Yn dilyn seminar gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2023 a gweithdy pellach ym mis Ebrill 2025, gwnaethom adolygu'r offeryn Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a oedd gennym o'r blaen a'i ymgorffori'n llawn yn ein gwaith Polisi Newid Sefydliadol. Roedd hyn yn cynnwys darparu ystadegau allweddol ar ddemograffeg y boblogaeth a thynnu sylw at ddogfennau allweddol y dylai awduron droi atynt wrth gwblhau Asesiad Effaith ar y Gymraeg gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Data cyfrifiad o 2021
- Mesur y Gymraeg 2011
- Hysbysiad Cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg ar gyfer YGPF
- Cod Ymarfer Safonau'r Gymraeg
- Strategaeth Cymraeg 2050
- Strategaeth Mwy na Geiriau a
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Rydym hefyd yn ystyried proffil demograffig ein staff ledled Cymru

Gwnaethom adolygu'r broses gyffredinol, lle mae'n rhaid i Bennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg a Chydymffurfiaeth weld unrhyw waith Polisi Newid Sefydliadol arfaethedig, i roi arweiniad a chyngor cyn ymgynghori.

### 7.3 Ymdrin â Chwynion a Phryderon

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'w phartneriaid. Caiff Protocol Rheoli Pryderon a Chwynion PCGC ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r protocol hwn yn cyd-fynd â Pholisi Delio â Chwynion Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd

Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 a Chanllawiau Gweithio i Wella.

Yn ystod 2024-25, codwyd 55 o bryderon gyda PCGC, ac o'r rhain:

- Daeth 35 o Gwynion Ffurfiol i law, lle ymatebwyd i 100% o’r cwynion o fewn 30 diwrnod gwaith; a
- Daeth 20 o Bryderon Datrys Cynnar i law, lle roedd modd datrys materion o fewn 48 awr, i foddhad yr achwynydd.

Mae cyfanswm y cwynion ffurfiol a ddaeth i law yn cynrychioli gostyngiad sylweddol a pharhaus ar gyfanswm y blynyddoedd blaenorol (100 yn 2021-22; 68 yn 2022-23, 46 yn 2023-24).

## 7.4 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi’r hawl i gyhoedd y DU gael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth gan gyrff cyhoeddus, ac mae’r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod ymrwymiad i dryloywder ac ymagwedd fwy agored yn y sector cyhoeddus, yn enwedig o ran y rhai sy’n atebol am benderfyniadau a wneir ar ran cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Daeth 138 o geisiadau i law PCGC yn ystod 2024/25; ymatebwyd i 98% ohonynt o fewn y terfyn amser o 20 diwrnod ar gyfer cydymffurfio.

## 7.5 Diogelwch a Llywodraethu Data

Yn 2024-25, adroddwyd 33 (o gymharu â 42 yn 2023-24) o achosion o dorri rheolau llywodraethu gwybodaeth o fewn PCGC; roedd y rhain yn cynnwys problemau gyda cham-anfon e-byst a rheoli cofnodion. Gwall dynol oedd mwyafrif y rhain, ac er gwaethaf addysg a ddarparwyd yn effeithiol i sicrhau ymwybyddiaeth o gyfrinachedd ac adrodd ar fynediad diawdurdod at ddata yn effeithiol, gall gwallau ddigwydd, yn anffodus.

Cofnodir pob achos o dorri rheolau ym meddalwedd rheoli risg Datix ac ymchwiliwyd iddynt yn unol â'r protocolau Llywodraethu Gwybodaeth ac Adrodd ar Fynediad Diawdurdod at Ddata, sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae’r protocolau yn annog staff i roi gwybod am yr achosion hynny o dorri’r rheolau a ddigwyddodd y tu allan i’r sefydliad at ddibenion cofnodi.

Ar sail hyn bydd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn ysgrifennu adroddiadau bob chwarter fydd yn cynnwys argymhellion perthnasol ac yn nodi’r meysydd y dylid eu gwella, er mwyn ei gwneud yn llai tebygol y bydd yr achosion hyn yn digwydd eto. Mae gofyn i aelodau o Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth roi adroddiad am unrhyw ddigwyddiadau yn eu meysydd, a ddylai gynnwys gwybodaeth am unrhyw wersi a ddysgwyd ac unrhyw newidiadau sydd wedi eu gwneud ers dod yn ymwybodol o’r digwyddiad. Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth hefyd yn darparu adroddiadau chwarterol i Swyddog Diogelu Data'r Ymddiriedolaeth er sicrwydd, ac mae’n darparu gwybodaeth am berfformiad sy'n rhan o'r

trefniadau adrodd ar berfformiad i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

Roedd un achos o dorri rheolau Llywodraethu Gwybodaeth a gyfeiriwyd at Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i’w ymchwilio ymhellach, ond roedd yr ICO yn fodlon cau’r achos heb gymryd unrhyw gamau pellach.

### 7.6 Ôl troed carbon

Mae PCGC wedi ymrwymo i reoli ei heffaith amgylcheddol, lleihau ei hôl troed carbon ac integreiddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes o ddydd i ddydd. Llwyddodd PCGC i weithredu ISO14001 fel ei System Rheoli Amgylcheddol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac mae wedi cynnal ardystiad yn llwyddiannus ers mis Awst 2014, trwy weithredu gwella parhaus y model Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu.

Cynhelir archwiliadau gwyliadwriaeth blynyddol i asesu cydymffurfedd parhaus â’r Safon. Mae Safon 2015: ISO14001 yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, gwelliant parhaus trwy ddull sy'n seiliedig ar broses risg ac ymrwymiad i arweinyddiaeth o'r brig i lawr, wrth reoli anghenion a disgwyliadau partïon sydd â diddordeb a dangos perfformiad amgylcheddol cadarn, trwy reoli effaith gweithgareddau, cynhyrchion neu wasanaethau ar yr amgylchedd.

Gwnaethom lwyddo i gael ein hail-ardystio yn unol â’r Safon drwy Simply Certification Ltd, sy’n un o gyrff ardystio achrededig UKAS, a chwblhau archwiliad gwyliadwriaeth blwyddyn un ym mis Mawrth 2025.

Yn ystod 2024/25, rydym wedi **cyflawni** gostyngiad cyffredinol o 4.3% yn ein hôl troed carbon ar draws ein safleoedd, yn erbyn targed o ostyngiad o 3%, flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Er mwyn cyflawni'r gostyngiad hwn, mae amrywiaeth o fentrau wedi'u targedu wedi cael eu cynllunio a'u hymgorffori ar draws ein safleoedd a'n gwasanaethau. Mae buddsoddiadau mewn technolegau sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd, fel goleuadau LED, gosod paneli solar a seilwaith gwefru cerbydau trydan, wedi cyfrannu'n sylweddol at y gostyngiad yn allyriadau carbon y sefydliad.
Mae'r Hyrwyddwyr Amgylcheddol a'r Tîm Gwyrdd yn parhau i nodi ffyrdd o leihau ein heffaith a lle gellir gwneud arbedion, yn ogystal â defnyddio technoleg i wella dulliau casglu data ac adrodd arno. Mae’r cynnydd mewn mabwysiadu trefniadau gweithio ystwyth wedi arwain at leihad yn nifer y staff ar safleoedd, ac mae hyn, ynghyd â mwy o addysg ac ymwybyddiaeth o nodau a thargedau ôl troed carbon PCGC a’r gwahaniaeth y gall staff ei wneud, ni waeth pa mor fach, wedi gwneud cyfraniad i’w groesawu at y gostyngiad. Rydym hefyd wedi annog staff i ymgymryd â modiwlau e-ddysgu fel Cyflawni Net Sero yn GIG Cymru, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Mae'r defnydd o drydan wedi gostwng 16.6% yn gyffredinol, oherwydd mesurau effeithlonrwydd wedi'u targedu megis gosod paneli solar, gosod

goleuadau LED a thechnoleg synwyryddion symudiad ar draws nifer o safleoedd. Mae'r prosiectau hyn, gan gynnwys newidiadau ymddygiad a'r dull gweithio ystwyth parhaus, yn dangos dull rhagweithiol a chydlynol o leihau'r defnydd o drydan.

O ran y cyfanswm o drydan a ddefnyddir, mae 2.4% yn ymwneud yn unig â defnyddio Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) ar draws ein hystâd. Cynyddodd y defnydd o Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) 6% yn gyffredinol ar ein safleoedd. Mae'r ffaith bod pwyntiau gwefru ar gael 24/7 a'r rhwyddineb mynediad iddynt yn annog staff GIG Cymru i'w defnyddio, hyd yn oed gyda fflyd y Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn cael blaenoriaeth fel "*olwynion y GIG yng Nghymru*". O ran cynnydd yn y galw am yr EVCUs, rydym yn gweld hyn fel mesur cadarnhaol i'r gymuned ehangach o ran ansawdd aer yr amgylchedd a lleihau'r ôl troed carbon ar gyfer teithiau cymudo staff PCGC. Mae hyn yn cyfrannu at Gymru Iachach a Chyfrifol ar lefel Fyd-eang gan fod gwefru cerbydau trydan yn cynhyrchu llai o Co2e na llosgi tanwydd o beiriannau petrol a diesel.

Gostyngodd y defnydd o nwy yn gyffredinol 8.0% yn ystod y cyfnod, a gyflawnwyd ar draws sawl safle trwy gyfuniad o newidiadau gweithredol, problemau gyda'r seilwaith a ffactorau tymhorol. Priodolwyd gostyngiad sylweddol i gamweithrediad yn system wresogi nwy'r warws yn Storfeydd Dinbych, nad oedd yn gweithio am sawl mis. Wrth symud ymlaen, mae cynlluniau gweithredol ar waith ar gyfer IP5 i ddisodli gwresogyddion sy'n heneiddio â systemau mwy effeithlon.

Defnyddiwyd olew cerosin i gynhesu safle Ystâd Ddiwydiannol Westpoint yn ystod y cyfnod, a chynyddodd y defnydd 32.44% (amrywiad o 2,479kg o CO2e) yn ystod y flwyddyn. Dyma'r unig safle sy'n defnyddio olew i gynhesu'r adeilad, a gellir priodoli'r cynnydd i aeaf oerach ac oriau gweithredu estynedig yn ystod y misoedd brig. Arweiniodd y ffactorau hyn at alw uwch am wresogi i gynnal lefelau cysur dan do, yn enwedig yn gynnar yn y bore a gyda'r nos pan oedd y tymheredd ar ei isaf.

Gostyngodd y defnydd o ddŵr 33.7%, oherwydd gwaith cynnal a chadw rhagweithiol ac ymgysylltiad staff. Yn ystod y cyfnod, nodwyd gollyngiadau cynnar ac ymgymerwyd ag atgyweiriadau cysylltiedig yn Alder House. Dechreuodd y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol olchi cotiau labordy mewn grwpiau er mwyn lleihau'r defnydd o ddŵr, ynghyd â gosod falf synhwyrydd pwysau. Yn ogystal, mae'r amrywiad blynyddol naturiol yn gyfrifol am newid canrannol bach ac mae parhau i weithio'n ystwyth wedi arwain at nifer llai o staff ar gyfartaledd ar safleoedd.

Mae cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd ar draws ein holl safleoedd wedi cynyddu 8.4% (amrywiad o 2,496kg o CO2e). Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed i ddiwygio'r gwaith o wahanu ffrydiau gwastraff a newidiadau ymddygiad cysylltiedig. Fodd bynnag, oherwydd nifer o brosiectau adnewyddu, fel Charnwood Court a Thŷ'r Cwmnïau, a mentrau a gynhaliwyd ar draws ein safleoedd, ynghyd â symud o Dŷ Aberhonddu a Chwmbrân i DuPont, mae'r gwastraff cyffredinol a gynhyrchir wedi cynyddu, wrth reswm.

Cynyddodd gwastraff cyfrinachol yn gyffredinol 27.2% (amrywiad o 3,399 kg o CO2e). Gellir priodoli'r cynnydd i'r prosiectau adnewyddu a gynhaliwyd ar draws safleoedd, ynghyd ag adleoliad DuPont. Yn ogystal, gwnaeth gwasanaethau sydd fel arfer yn cynhyrchu cyfeintiau sylweddol, fel Cyfrifon Taladwy a Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, gwblhau prosiectau sganio ac adolygu ardaloedd storio. Hefyd, gweithredodd y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol system TG ddi-bapur yn ystod y cyfnod, a chyflwynodd broses ar gyfer argraffu dogfennau. Mae'r holl wastraff cyfrinachol yn cael ei gadw mewn biniau diogel ar y safle ac yn cael ei gludo ymaith gan ddarparwyr gwasanaeth achrededig i'w addasu i greu eitemau fel llyfrau nodiadau, papur toiled, hancesi papur, ac ati. Mae pob ffrwd wastraff arall yn cael ei gwaredu'n briodol ac yn gyfrifol ac yn unol â'r Rheoliadau perthnasol. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu prosesau digidol i leihau'r defnydd o bapur, arbed adnoddau a chryfhau diogelwch data, gan adlewyrchu ein hymrwymiad ehangach i leihau'r defnydd o adnoddau prin (h.y. papur).

Gwelsom gynnydd o 32.1% (400kg o CO2e) yn y defnydd o gerbydau cronfa. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei fod yn lliniaru'r defnydd o gerbydau staff i gymudo ac yn annog rhannu ceir, lle bo'n bosibl. Mae parhau i fabwysiadu gweithio ystwyth hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn. Yn ogystal, mae ceir cronfa a ddefnyddir o fewn y sefydliad yn ecogyfeillgar, fel cerbydau trydan neu hybrid, sy'n lliniaru ein heffaith amgylcheddol ymhellach. Yn yr un modd, cynyddodd y defnydd o gludiant dosbarthu 57.5%, a gellir priodoli hyn i newidiadau gweithredol, yn enwedig yn ystod adleoli safleoedd. Yng Nhŷ Aberhonddu, defnyddiwyd cludiant dosbarthu yn helaeth i gefnogi'r gwaith symud i DuPont, gan gynnwys trosglwyddo offer a deunyddiau rhwng safleoedd. Roedd hyn yn cynnwys symud eitemau i leoliadau eraill fel rhan o'r broses ddatgomisiynu. Yn ogystal â hyn, yn y safleoedd Storfeydd lle gwelsom gynnydd, mae hyn oherwydd gofynion gweithredol ac ehangu gwasanaethau. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen moderneiddio'r fflyd i liniaru allyriadau ymhellach, gwella effeithlonrwydd tanwydd a chefnogi'r newid i gerbydau trydan ac allyriadau isel ar draws ein gweithrediadau.

Cynyddodd milltiroedd busnes a deithiwyd 6.28% yn ystod y cyfnod. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'r ffigur hwn yn parhau'n isel o gymharu â ffigurau a adroddwyd cyn mis Mawrth 2020, o ystyried trefniadau gweithio ystwyth parhaus a'r defnydd cynyddol o dechnoleg i gynnal cyfarfodydd ar-lein, gyda 861,043 milltir wedi'u teithio.

### 7.7 Y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio

Cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021-2030) ym mis Mawrth 2021 ac mae'n darparu map ffordd manwl ar gyfer GIG Cymru, wedi'i adeiladu o gwmpas 46 o fentrau ac mae pob un ohonynt wedi'u hasesu ar gyfer y potensial i helpu i hwyluso neu leihau allyriadau carbon yn uniongyrchol. Arweiniodd PCGC y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r Cynllun Strategol sy'n nodi ymateb GIG Cymru i uchelgeisiau sero net 2030. Mae gan y sefydliad rôl arweiniol Cymru gyfan mewn

Adeiladau, Trafnidiaeth, Caffael, Cynllunio Ystadau a Defnydd Tir ond mae ganddo hefyd gyfrifoldebau ar draws ffrydiau gweithgarwch eraill ar lefel genedlaethol a lleol oherwydd ein dylanwad uniongyrchol sylweddol ar agweddau allweddol ar y Cynllun.

Mae PCGC hefyd wedi datblygu ei chynllun gweithredu ei hun, a gafodd ei grynhoi yn y CTCI ar gyfer 2022-25, ac mae adrodd ar gynnydd wedi'i integreiddio i broses monitro'r CTCI. Mae'r cynllun yn nodi sut mae'r sefydliad yn datgarboneiddio ein gweithgareddau ein hunain. Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys lleihau effaith ein hadeiladau, ein fflyd, a'n gwasanaeth golchdy newydd, yn ogystal â gweithio gyda staff i helpu i godi proffil datgarboneiddio ar draws y sefydliad.

Cynhyrchodd PCGC ail fersiwn o'i Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer y cyfnod 2024-2026. Mae'r Grŵp Cyflawni Datgarboneiddio (DDG) yn cyfarfod bob deufis i gydlynu gweithgareddau datgarboneiddio ar gyfer PCGC a'r rhai a hwylusir ar draws GIG Cymru. Mae'r Tîm Adrodd ar Gydlynu Datgarboneiddio (DCR), a sefydlwyd ddechrau 2023, yn chwarae rhan hanfodol wrth ysgogi'r gwaith o roi pob menter ar waith mewn ffordd glir ei chanolbwynt trwy ei rôl gydlynu ac adrodd. Mae'r tîm hwn yn gweithio fel y rhyngwyneb ffurfiol rhwng Rhaglen Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, gan ddarparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth, cydlynu, monitro ac adrodd ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Strategol ar sail GIG Cymru gyfan.

## 7.8 Cynllunio Parhad Busnes a Pharodrwydd am Argyfyngau

Mae PCGC yn rhagweithiol wrth adolygu gallu'r sefydliad i barhau i ddarparu gwasanaethau neu gynnyrch ar lefel dderbyniol a ddiffiniwyd ymlaen llaw ar ôl digwyddiad aflonyddol. Mae PCGC yn cydnabod ei chyfraniad at y gwaith o gefnogi GIG Cymru, fel bod modd iddo allu cynllunio ar gyfer ystod eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar iechyd neu ofal cleifion ac ymateb iddynt. Mae hyn yn unol â'r gofyniad i gyrff y GIG gael eu hystyried yn ymatebwr Categori 1, sef cyrff sydd ar flaen y gad wrth ymateb i'r rhan fwyaf o argyfyngau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Mae PCGC wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn dilyn yr holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol a bod ganddi brosesau ar waith i adnabod, asesu a gweithredu gofynion deddfwriaethol a rheoliadol sy'n ymwneud â pharhad gweithrediadau ac â buddiannau rhanddeiliaid allweddol.

Fel sefydliad a letyir, mae'n ofynnol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) nodi Polisi Rheoli Parhad Busnes yr Ymddiriedolaeth, gyda chymorth canllawiau lleol, er mwyn sicrhau bod gan PCGC strategaethau effeithiol ar waith ar gyfer:

- Pobl - colli staff oherwydd salwch neu bandemig;
- Safleoedd - staff yn cael eu hatal rhwng mynd i mewn i'w gweithleoedd arferol

- Problemau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a phroblemau cyfathrebu / TGCh a
- Problemau gyda chyflenwyr mewnol ac allanol
- Yn ogystal, mae bellach wedi bod yn ofynnol i bob Is-adran ymestyn ei Hasesiadau Effaith Busnes i nodi risg parhad busnes sy’n benodol i adrannau, ac i gynllunio a lliniaru ar eu cyfer.

Mae gan PCGC rwydwaith o Hyrwyddwyr Cynllunio Parhad Busnes (BCP) sy'n cyfarfod bob deufis â chynrychiolwyr o bob Is-adran. Caiff y Grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg.

Mae PCGC yn cwblhau Adroddiad Cynllunio at Argyfyngau Iechyd Llywodraeth Cymru bob blwyddyn ar sail blwyddyn galendr. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod mesurau ar waith o fewn PCGC i reoli ac ymateb i ddigwyddiadau mawr sy'n tarfu ac mae’n cadarnhau'r trefniadau cadarn sydd ar waith o fewn Is-adran y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth, sy'n gyfarwydd iawn â'r maes hwn.

Amlygodd adroddiadau blaenorol yr angen i sicrhau bod pob Is-adran ac unigolyn perthnasol o fewn PCGC wedi cael hyfforddiant priodol, bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo iddynt, a’u bod wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol allweddol, lle bo'n briodol. Mae rhaglen hyfforddi lawn ar waith i ddarparu'r cyrsiau canlynol, a gyflwynir gan y Pennaeth Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys (EPRR), sydd newydd ei benodi:

- Cynllunio Parhad Busnes ar gyfer Rheolwyr;
- Rheoli Digwyddiad Mawr;
- Cwrs Cofnodwr Digwyddiadau Mawr a Pharhad Busnes; ac
- Ymarferion Adrannol.

Cyflawnir ymgysylltiad llawn â rhanddeiliaid allanol gan y Pennaeth Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys a staff dynodedig eraill sy'n mynychu amrywiaeth o Fforymau a Grwpiau Cynllunio at Argyfwng Cymru, gan gynnwys Grŵp Ymgynghorol Cynllunio at Argyfyngau Gweithredol y GIG, Partneriaeth Gwydnwch Cymru, y 4 Fforwm Cydnerthedd Lleol yng Nghymru a Grŵp Gwydnwch y System Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar. Mae presenoldeb yn y grwpiau yn sicrhau bod PCGC wedi'i integreiddio'n llawn i Fframweithiau Gwydnwch Cymru.

Mae cymhwysiad Cynllunio Parhad Busnes a weithredwyd yn flaenorol, gyda'r nod o hyrwyddo cyfathrebu effeithiol, wedi cael ei adolygu i wella ymarferoldeb. Cwblheir adroddiadau gwersi a ddysgwyd ar ôl pob digwyddiad, a chyflwynir adroddiadau amdanynt yn rheolaidd i'r Hyrwyddwyr Parhad Busnes a'r Uwch Grŵp Arwain.

Cyflawnodd yr Adroddiad Archwilio Mewnol blaenorol Sicrwydd Rhesymol, ac roedd yn cynnwys argymhellion defnyddiol ar gyfer diweddaru cardiau gweithredu adrannau a diweddaru agweddau ar ddogfennaeth parhad busnes, yn ogystal ag awgrymu ystyried buddsoddi mewn adnoddau pwrpasol a fydd yn cael eu datblygu yn 2025-26.

Mae cychwyn camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn wedi arwain at y datblygiadau canlynol:

- penodi'r Pennaeth Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys;
- canllawiau newydd ar Asesiadau Effaith Busnes adrannau a datblygu Cynllun Parhad Busnes;
- mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu/gweithredu system rheoli dogfennau sy'n gallu adrodd ar adolygiadau dogfennaeth Cynllunio Parhad Busnes (CPB), ymarferion Cynllun CPB ac Archwiliadau a'u monitro; a
- gwaith pellach i werthuso'r gofynion llawn o ran adnoddau er mwyn galluogi gwella lefelau cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol a disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Mae staff yn parhau i weithio'n hyblyg lle bo modd, ac maent wedi cael offer TG priodol i'w galluogi i wneud hynny'n effeithiol. Ar gyfer staff yr oedd yn ofynnol iddynt, neu a oedd yn well ganddynt fynychu safleoedd PCGC, rhoddwyd systemau gweithio diogel ar waith a'u gwella i'w cadw mor ddiogel â phosibl, ac yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

## 7.9 Seiberddiogelwch

Mae PCGC yn parhau i weithio tuag at weithredu'r Fframwaith Seiberddiogelwch er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol y gwasanaeth ac ymateb i argymhellion adroddiad Fframwaith Asesu Seiber PCGC.

Mae cynllun parhaus wedi'i lunio sy'n cwmpasu'r meysydd Adnabod, Diogelu, Canfod, Ymateb ac Adfer. Mae pob tasg yn y cynllun yn cyd-fynd â'r Fframwaith Asesu Seiber ac â dangosyddion arfer da safonol y diwydiant. Mae dangosydd perfformiad allweddol gyda thargedau cynnydd cysylltiedig wedi'i atodi i bob dangosydd, ac adroddir ar gynnydd yn erbyn targedau i'r Uwch Grŵp Arwain bob chwarter.

Mae'r tasgau yn y cynllun yn cwmpasu Seiberddiogelwch y gadwyn gyflenwi, datblygu polisïau, prosesau a gweithdrefnau, asesu'r effaith ar fusnes a monitro asedau'n barhaus i ddod o hyd i anomaleddau, dangosyddion amhariad, a digwyddiadau andwyol posibl eraill trwy weithredu'r cynnyrch Rheoli Digwyddiadau a Digwyddiadau Diogelwch cenedlaethol. Mae gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru seilwaith rhithwir cadarn sy'n seiliedig ar ddaliadau'r fframwaith er mwyn darparu amgylchedd diogel a sicr ar gyfer systemau busnes PCGC. Mae'r seilwaith hwn wedi cael ei symud yn ddiweddar i'r ddwy ganolfan ddata genedlaethol i wella argaeledd a gwydnwch daearyddol.

Yn ystod y flwyddyn, darparwyd hyfforddiant ar nifer o lefelau, gan gynnwys ymarferion bwrdd gwaith gyda'r Uwch Grŵp Arwain, ac mae ymgyrchoedd ymarfer gwe-rwydo yn parhau i gael eu cynnal. Mewn ymateb i bryderon cynyddol ynghylch seiberddiogelwch, anfonir cyfathrebiadau rheolaidd at staff, yn eu hatgoffa o'r arferion gorau wrth ddelio â systemau TG ac ymateb i e-byst a mathau eraill o gyfathrebu

electronig. Mae PCGC hefyd yn cael ei chynrychioli ar Rwydwaith Seiberddiogelwch Cymru gyfan.

### 7.10 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Mae PCGC yn gweithredu o fewn cwmpas trefniadau llywodraethu yr Ymddiriedolaeth. Mae PCGC yn ffyddiog ei bod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod, ei bod yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol a'i bod yn cynnal ei busnes mewn modd agored yn unol ag ef.

### 7.11 Cynllun Pensiwn y GIG

Gan fod PCGC yn gweinyddu'r swyddogaeth gyflogres ar gyfer GIG Cymru, mae mesurau rheoli cadarn ar waith i sicrhau bod pob rhwymedigaeth cyflogwr sydd wedi'i chynnwys yn rheoliadau'r Cynllun ar gyfer y staff sydd â'r hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG yn cael ei chydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun oll yn digwydd yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni y manylir arnynt yn y Rheoliadau.

## 8. ADOLYGIAD CYFFREDINOL Y RHEOLWR GYFARWYDDWR O EFFEITHIOLRWYDD

Fel y Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol a Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn PCGC, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith o reolaeth fewnol, ynghyd â sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyr ac mewn adroddiadau eraill, oll yn sail i sut rwyf yn mynd ati i adolygu'r system rheolaeth fewnol.

Yn ogystal, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg ac rwy'n adrodd i'r SSPC ynghylch effeithiolrwydd rheoli risg ar draws PCGC. Mae fy nghyngor i'r SSPC yn cael ei lywio gan adroddiadau ar reolaethau mewnol gan bob un o'i bwyllgorau, ac yn enwedig gan y Pwyllgor Archwilio.

Mae pob un o'r Pwyllgorau wedi ystyried nifer o adroddiadau yn ymwneud â'u meysydd busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn wedi cynnwys amrywiaeth gynhwysfawr o adroddiadau archwilio mewnol ac allanol ac adroddiadau ynghylch safonau proffesiynol o gyrff rheoleiddio eraill. Mae'r Pwyllgorau hefyd wedi ystyried meysydd ar gyfer datblygiadau strategol lleol a chenedlaethol ac wedi cynghori ar y meysydd hyn, ynghyd ag ystyried ehangu'r gwasanaethau y mae PCGC yn eu darparu. Mae pob Pwyllgor yn ysgrifennu adroddiad blynyddol am ei fusnes ac am y meysydd y mae wedi mynd i'r afael â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf, a chaiff y rhain eu hadrodd i'r Ymddiriedolaethau, y Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Iechyd Arbennig.

### 8.1 Barn Archwilio Mewnol

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi llif o sicrwydd ar y system rheoli mewnol i mi a'r SSPC drwy'r Pwyllgor Archwilio. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi ei darparu gan y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn PCGC yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.

Daethpwyd i gytundeb ynghylch cwmpas y gwaith hwn â’r Pwyllgor Archwilio, ac mae’r gwaith yn canolbwyntio ar feysydd risg a blaenoriaethau gwella lleol. Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn deillio o’r rhaglen archwilio hon sy’n seiliedig ar risg, ac mae’n cyfrannu at y darlun ynghylch sicrwydd sydd ar gael i’r Bwrdd wrth iddo adolygu effeithiolrwydd a chefnogi’n hymdrech i wella’n barhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-2025 oedd y gall Pwyllgor y Bartneriaeth fod yn **Weddol Sicr** bod trefniadau i ddiogelu llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a fu dan sylw, wedi cael eu dylunio’n briodol a’u gweithredu’n effeithiol:

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd rhesymol** |  | Gall y Pwyllgor fod yn **weddol sicr** fod y trefniadau i ddiogelu llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a fu dan sylw, wedi eu dylunio’n briodol a’u gweithredu’n effeithiol.<br>Mae angen i rai materion gael sylw rheolwyr o ran rheoli, dylunio neu gydymffurfio.<br>**Effaith isel i gymedrol** ar wireddu risgiau gweddilliol hyd nes y cânt eu datrys. |

Wrth ddod i’r casgliad cyffredinol hwn mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi bod y meysydd sicrwydd sy’n berthnasol i PCGC oll yn rhoi sicrwydd gweddol yn dilyn asesiad. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd sgôr ‘cyfyngedig’ i ddau adroddiad archwilio mewnol (sef Datgarboneiddio a’r Tîm Cyfarparu Cyfalaf Gwasanaethau Chaffael). Nid oedd unrhyw adroddiadau heb unrhyw sicrwydd. Roedd pob adroddiad arall naill ai'n rhoi sicrwydd sylweddol neu resymol neu'n cael ei gyhoeddi fel adroddiadau cynghorol.

Mae’r heriau i gyflawni’r agenda Datgarboneiddio o fewn adnoddau cyfyngedig, fel y nodwyd yn yr adran Rheoli Risg, wedi’u cydnabod yn yr adolygiad Archwilio Mewnol sicrwydd cyfyngedig. Mae Archwilio Mewnol yn amlygu mai achos sylfaenol y sgôr yw y dylid cydnabod effaith cyfyngiadau ariannol ar allu PCGC i gyflawni ei Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio ei hun ac i gefnogi’r gwaith ehangach o gyflawni yn GIG Cymru. Ni amlygodd

yr adolygiad Archwilio Mewnol wendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol.

### 8.2 Rheolaeth ariannol

Sefydlwyd PCGC gan Lywodraeth Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth i GIG Cymru. Fel y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros reolaeth ariannol PCGC ac rwy'n adrodd i Gadeirydd yr SSPC.

#### 8.2.1 Crynodeb o Reolaeth Ariannol yn PCGC

Mae pedair prif elfen i Reolaeth Ariannol yn PCGC, sef:

- **Trefniadau Llywodraethu** – Fel sefydliad a letyir, mae PCGC yn gweithredu o dan Fframwaith Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys y Rheolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio gweithredoedd a busnes. Mae'r gofynion statudol wedi eu troi'n weithrediadau o ddydd i ddydd ac ynghyd â'r Cynllun Neilltuo a Dirprwyo Grymoedd a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn ffurfio'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer ymddygiad busnes yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir y trefniadau hyn gan drefniadau gweithredu ariannol manwl sy'n cwmpasu yr Ymddiriedolaeth yn ei chyfanrwydd yn ogystal â threfniadau gweithredu lleol sydd ond yn berthnasol i PCGC.

- **Cyllidebau ac Amcanion y Cynllun** – Mae amcanion sydd wedi eu cymeradwyo a chyllidebau blynyddol yn rhoi eglurder o ran swyddogaethau gweithredol. Rydym yn mesur ein perfformiad yn erbyn y rhain yn ystod y flwyddyn.

- **Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLAs) –** Mae gan PCGC Gytundebau Lefel Gwasanaeth ar waith gyda phob sefydliad cwsmer a chyda rhai cyflenwyr allweddol a sefydliadau eraill y GIG. Mae hyn yn sicrhau bod disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau a rhwymedigaethau ar y ddwy ochr yn eglur a bod dealltwriaeth o'r dangosyddion perfformiad allweddol. Mae adolygiad blynyddol o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ystyried datblygiadau gwasanaeth.

- **Adrodd** – Mae gan PCGC ystod eang o adroddiadau ariannol ac adroddiadau perfformiad yn eu lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau a rheolaethau cysylltiedig a chymryd camau i unioni sefyllfaoedd yn ôl y gofyn.

Trwy'r strwythur hwn mae PCGC wedi cynnal rheolaeth ariannol effeithiol sydd wedi'i hadolygu a'i derbyn fel sy'n briodol gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

## 9. CASGLIAD

Mae’r Datganiad Llywodraethu hwn yn dangos bod PCGC wedi parhau i wella ac aeddfedu fel sefydliad yn ystod 2024-25, a’i fod yn parhau i ddatblygu ac ymgorffori llywodraethu da a rheolaethau priodol ledled y sefydliad. Mae PCGC wedi derbyn adborth cadarnhaol oddi wrth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y fframwaith sicrwydd ac, oherwydd hyn, ac oherwydd ffynonellau eraill o sicrwydd, rwyf wedi dod i’r casgliad bod gan y sefydliad system rheolaeth gadarn.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn ymwybodol o’m cyfrifoldebau a'm hatebolrwydd parhaus i sicrhau bod cydymffurfiaeth ym mhob maes fel yr amlinellir yn y datganiadau uchod yn parhau i gael ei chyflawni ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

Llofnodwyd gan:

Rheolwr Gyfarwyddwr - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Dyddiad: